



Tudalen 6

YSGOL BETHEL



Tudalen 24

DEINIOLEN AR Y BOCS


ECO'r Wyddfa

Rhif: 421

Mai 2014

Pris:60c

“Tim pentra gora Cymru”.



Oes raid dweud mwy? Ein llongyfarchiadau i bawb sy'n gysylltiedig â Chlwb Peldroed Llanrug ar eu camp yn ennill Tlws Cymdeithas Beldroed Cymru.

(gweler y sylw ar dudalen 2 a hanes y gêm a mwy o luniau ar y tudalennau chwaraeon)

Rhifyn
Mehefin

Copi i law
Mai 18

Bwndelu
Mai 29

Ble
Brynrefail

RHIF 421

Mai 2014

Argraffwyd gan

Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

3 Bryn Moelyn
Llanrug

Annwyl Olygydd

Bûm â blodau ar fedd fy rhieni yng nghyfraith ym mynwent Macpelah, Deiniolen, ar gyfer Sul y Mamau, tusw hardd o rosynnau pinc a gwyn. Pan euthum yn ôl i'r fynwent ar gyfer Sul y Blodau doedd yr un blodyn ar ôl ar y bedd – dim deilen na phetel wedi gwywo, na choesyn yr un blodyn yn y potyn llechen, trwm. Roedd y bedd yn berffaith lân.

Roeddwn yn dristi iawn a siomedig ei bod yn hollol amlwg bod rhywun wedi hoffi'r blodau hefyd, digon i fynd â hwy adref neu ar fedd rhywun arall.

Deallaf fod hyn wedi digwydd yn Mynwent Llanrug ar yr un penwythnos hefyd. Gobeithio bod cydwybod rhywun yn pigo wrth ddarllen y llythyr hwn.

Yn gywir
Eryl Roberts

Yn ystod y mis diwethaf.....

• Cafodd ysgol uwchradd dalgylch bro'r "Eco" gryn sylw yn y wasg a'r cyfryngau lleol a chenedlaethol. Cafodd dillad budur honedig eu hongian allan ar lein gyhoeddus i bawb gael tynnu sylw atynt; boed yr ensyniadau'n wir ai peidio. Teg cwestiynnu doethineb y corff llywodraethol yn datgelu manylion eu cyfarfodydd i'r wasg, yn enwedig enwi unigolion a rhoi llais i'w sylwadau; boed y sylwadau rheini'n negyddol neu'n gadarnhaol. Dangoswyd hefyd pa mor ddefnyddiol yw'r cyfryngau cymdeithasol megis facebook o'i gymharu â llythyru hen ffasiwn. Yn ystod y cyfnod hwn, aeth gwaith yr ysgol ymlaen fel arfer, a chafwyd llwyddiant sylweddol - yn unigolion, partion a chorau - yn eisteddfod sir yr Urdd. Dymuniadau gorau iddynt yn y Genedlaethol yn y Bala. Prin fu'r sylw i'r llwyddiannau hyn yn y wasg. Ond wrth gwrs, 'dyw dyfalbarhad disgyblion yn rhoi eu hamser i ymarfer ar gyfer y gwahanol gystadleuthau ac ymroddiad aelodau o staff yr ysgol i'w hyfforddi ddim yn stori hanner mor flasus i helgwn y wasg....

• Cyhoeddodd Edwina Hart, Gweinidog Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru fod £5 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio diogel i ysgolion a chymunedau. Yng Ngwynedd, mae'r arian yn cael ei wario mewn dwy gymuned. Mae £67,000 yn cael ei wario yn Nefyn i gyflwyno mesurau gostegu traffig a chreu llwybr troed newydd. Yn Nhremadog bydd £58,000 yn cael ei wario ar ddiogelwch y ffordd a llwybr troed newydd ger Ysgol y Gorlan. Daeth y newyddion hefyd fod llwybr beicio 13 cilomedr wedi ei gwblhau o amgylch Llyn Trawsfynydd. Ac y mae gwariant sylweddol ar greu llwybr beicio o Glynllifon i Lanwnda drwy Fethesda Bach. Llongyfarchwn y pedair ardal yn sicrhau llwybrau diogel i'w cymunedau. Ond teg gofyn pam fod Dyffryn Peris yn parhau i lusgo ymhell ar ôl pawb arall? Pa mor uchel ar restr blaenoriaethau ein cynghorwyr sirol yw llwybrau diogel – yn enwedig o bentref Brynrefail i Gwm y Glo, ac i ddisgyblion y fro i Ysgol Brynrefail?

• Prin fu'r sylw yn y Wasg Gymraeg am lwyddiant Llanrug yn ennill Tlws Cymdeithas Peldroed Cymru. Ychydig linellau yn Y Cymro, a hynny cyn y gêm. Mwy o sylw yn Golwg, a dangos fideo o uchafbwyntiau'r gêm ar Golwg 360. Ond pe bai newyddiadurwyr go iawn yn gwneud mymryn o waith cartref, gallasai hon fod yn stori arbennig gyda gogwydd wahanol iddi. Sgwn i pa bryd y bu i unrhyw dim, mewn unrhyw gamp, ennill tlws cenedlaethol, a phob aelod o'r tim hwnnw yn siarad Cymraeg? Dim ond gofyn.....

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £18.00

Cost anfon dros y we am flwyddyn - £6.00

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar
01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Llywodraeth Cymru**

£22: Elwyn Williams, Cranleigh.

£20: Mair Owen, Caerdydd; Er cof am Mrs Alice Thomas, gynt o 1 Bro Elidir, Dinorwig, gan y teulu; Ivy a Len Wright 2 Tan y Buarth, Bethel; Gwyneth Hughes, 36 Bro Rhos, Bethel; Er cof am Ellen Wyn Jones, Ty'n y Fawnog, Dinorwig.

£12: Di Enw; Gwerfyl McCarthy, Chidwall.

£10: Valmai Owen, Rhos Elan, Ffordd Bethel, Llanrug; Gordon ac Ann Davies, Sycharth, Bryn Moelyn, Llanrug; Teulu'r ddiweddar Audrey Florence Evans, 2 Bryniau Gerddi, Llanberis; Teulu'r ddiweddar Joan Wheldon Thomas, 41 Dôl Elidir, Llanberis; Er cof am Bob a Hettie Hughes, Llanberis; Ann Rhys William, Croesoswallt; Olwen Ebrell, Coventry.

£7: Mrs N Lovatt, Aberystwyth; Ronnie Williams, Aylestone; Bessie Williams, Llanfairpwll; Anna Sidebotham, Whaley Bridge; Owen Jones, Llangefni; Gomer Davies, Tregarth; Jenny Davies, Llangetho.

£5: Di-enw, Penisarwaun; Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Geraint Hughes Roberts, Bangor

£4: Mrs Betty Bower, Tan y Marian, Dinorwig; Alan Pritchard, Dolafon.

£2: Di-enw Llanrug; Nancy Parry, Penygroes; Elizabeth Williams, Llwyndyrus.

£1: Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron, Dinorwig.

YMDDIHEURIAD Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco dangoswyd £5 o rodd gan Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch. Dylid bod wedi cofnodi £10.

Tymor y Trwsio ...



I'r rhai ohonoch sy'n teithio'n ddyddiol o Lanberis i lawr y dyffryn, rydych yn ymwybodol o'r gwelliannau sy'n digwydd i ochr y ffordd rhwng Gwêl y Llyn a cheg y twnnel ym Mhen Llyn. Mae'r gwaith yn rhan o uwchraddio'r ffordd, ac yn delio a phroblem gorlif dwr o'r creigiau sy'n achlysurol yn effeithio ar wyneb y ffordd.

Mae'r gwelliannau eraill yn dyddio'n ôl i stormydd Tachwedd 2012. Sgubwyd Pont Maenllwyd ymaith gan afon Goch wrth iddi hyrddio i lawr am bentref Llanberis a boddi nifer sylweddol o adeiladau'r pentref.

Yr un oedd hanes Pont y Felin yng Nghlwt y Bont, ac y mae'r ffordd honno wedi bod ar gau ers blwyddyn a hanner, gyda pont droed yn unig wedi ei gosod yno i liniaru'r trafferthion.

Da gweld fod dwy bont newydd yn cael eu gosod, a'r sylfeini hefyd yn cael eu cryfhau.



**SWIGOD
A
SEBON**

**Gwasanaeth
Golchi
a Smwddio
Altro • Ailwnïo**

**54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088**



BOSCH Service

Car Service

AA MOT **ATC** **Shell** **www.a-v-w.co.uk**

01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**



Daeth Gwyneth Glyn i'r ysgol i adrodd storiâu, canu a chyfansoddi rap efo ni. Roedd Gwyneth yn annwyl a ffeind efo ni ac rydym wedi rhoi y rap ar wal y dosbarth.



Ar 'Ddiwrnod y Llyfr' daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr. Roedd Mrs. Oliver yn deud bod pawb wedi neud ymdrech arbennig. Rydym i gyd wedi rhoi cynnig ar gystadleuaeth y Llyfrgell ac yn gobeithio bydd rhywun o'r ysgol yn cael gwobr.



Daeth y Parchedig Carol Roberts i'r ysgol gyda'r Parchedig Paul Davies, Archddiacon Bangor a chriw o'r eglwys i gyflwyno stori fel rhan o gynllun 'Agor y Llyfr'. Roedd pawb wedi mwynhau clywed y stori a rydym yn edrych ymlaen i gael clywed mwy o straeon pob wythnos.



Daeth PC Meirion Williams i'r ysgol i son am gyffuriau ac alcohol efo ni. Roedd ganddo gogls i ni wisgo er mwyn i ni gael gweld sut mae alcohol a chyffuriau yn cael effaith ar ein synhwyr. Roedd pawb yn chwervthin wrth weld dau PC Williams a trio gafael mewn un pensil pan oedda ni yn gweld dwy! Rydym yn edrych ymlaen at gael mwy o hwyl efo PC Williams tymor nesaf.



Yn ystod yr wythnos gyntaf yn ôl ar ôl yr hanner tymor roedd pawb yn dathlu 'Cymru Cw!'. Cawson wasanaeth Dydd Gwyl Dewi ble roedd pawb wedi gwisgo coch, neu wisg draddodiadol.



Ar ddydd Mawrth crempog cawson sypreis. Roedd Anti Janet wedi body n brysur yn y gegin ac wedi gwneud llond plât o grempog i ni. Dywedodd ei bod yn dilyn hen resait teulu Anti Margaret (Bryn). Rydym yn meddwl bod y crempog y rhai gorau yn y byd!



Roedd rhai ohonom wedi cael dod efo ein rhieni i noson yn yr ysgol gyda'r staff, Cyfeillion a'r Llywodraethwyr. Yn ystod y noson roedd cyfle i ni ddangos yr ipads rydym wedi prynu efo arian gan y Cyfeillion a gan gronfa MAGNOX, cael gwybod mwy am y Siarter Iaith ac am HWB+. Mae Mrs. Oliver eisiau i ni ddweud diolch i Mr. Dafydd Griffiths, tad Dion am helpu cael yr arian ac i'r Cyfeillion. Rydym ni eisiau diolch i Anti Janet am neud cacen i bawb fwyta ar y noson.

Aeth criw ohonom i gystadlu yn y Gala Nofio yn y Ganolfan Hamdden. Diolch i Miss Williams a mam Jonathan am fynd a ni. Roedd pawb wedi gwneud eu gorau ac Aaron a Riannon wedi dod yn gyntaf.

Mae dosbarth Peris wedi cael mynd i Tesco, Caernarfon fel rhan o'u gwaith ar fwyd ac o ble mae bwyd yn dod. Roeddynt wedi cael pob math o brofiadau fel mynd i'r warws ac i mewn i'r oergell fawr ac wedi dysgu llawer am fwyd a sut mae'n cyrraedd Tesco.

Undeb y Mamau Yr oedd ein cyfarfod misol yn disgyn y mis yma yn ystod yr Wythnos Sanctaidd. Ar ôl trafod y mater penderfynodd yr aelodau ymuno gyda chynulleidfia Eglwys Sant Mair mewn gwasanaeth oedd yn cael ei gynnal fore Mercher 16 Ebrill am ddeg o'r gloch.

Cymanfa'r Annibynwyr Cynhelir y Gymanfa bawn Sul, Mai 11fed am 2.00 yn Neuadd Gymuned Penisarwaun. Cymerir y rhan dechreuol gan Ysgol Sul Ebeneser Deiniolen. Gwneir casgliad at Gynllun Efe. Bydd paned ar y diwedd.

Llongyfarchiadau i Dewi ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21ain. Oddi wrth Mam, Dad, Kerry, John, Catrin, Fiona ac Osian, 13 Dôl Afon, hefyd i Rebecca, Aran, sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 21ain.

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

Cynhebrwng Yn anffodus pan oeddwn yn sôn am farwolaeth sydyn a disymwth Miss Ellen Wyn Jones, nid oedd trefniadau yr angladd wedi eu gwneud pan aeth y newydd i'r wasg. Bu ei hangladd yn gyhoeddus yng nghapel Sardis ar ddydd Mercher, Mawrth 19, lle yr oedd y capel yn orlawn. Llawer iawn o blant yr ardal wedi dod i dalu y gymwynas olaf i un ag yr oedd gan bawb feddwl mawr ohoni.

Cymerwyd gwasanaeth yr angladd gan ei gweinidog, y Parchedig Olaf Davies. Traddodwyd y weddi gan y Parch William John Lewis, un o blant yr ardal a oedd wedi ei ddwyn i fyny hefo Nellie yn Sardis, ac wedi bod yn gyfeillion mawr ar hyd y blynyddoedd. Diwrnod yr angladd yr oedd dan deimlad dwys. Darllenwyd rhan o'r Ysgrhythur gan y Canon Idris Thomas, un arall o blant yr ardal, a chanwyd dwy emyn.

Yr oedd yn wynt cryf ar y diwrnod ond yn sych, ond oherwydd safle y capel yr oedd yn stormus iawn.

Wedi'r gwasanaeth teilwng yn y capel, dilynwyd yn Amlogfa Bangor. Rhoddwyd ei llwch yn y bedd hefo'i Thad a'i Mam ym mynwent Macpela, Deiniolen.

Colled fawr i'w hardal a cholled fawr iawn i Eglwys Sardis. Yr oedd yn gefnogol iawn i weithgareddau ei milltir sgwâr. Braint fawr oedd cael adnabod un fel Nellie, a heddwch i'w llwch a diolch am gael ei benthg.

Cofion Yr ydym fel ardal yn anfon ein cofion at Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, ond sydd yn cartrefu ar hyn o bryd yn Bryn Lliffon ym Mangor. Deall nad yw ei iechyd y dyddiau yma yn rhy dda. Yr ydym yn dymuno gwell iechyd ichwi a gobeithio y byddwch yn well yn fuan.

Diolch Dymuna teulu y ddiweddar Ellen Wyn Jones, Ty'n y Fawnog, ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu colled fawr ddisymwth a thrist. Diolch i bawb oedd yn bresennol yn y capel a'r amlogfa ac am y llu cardiau a rhoddion er cof am berson mor ddibynadwy ac annwyl. Mawr yw ein diolch i'r Parch Olaf Davies am ei gefnogaeth a'r deyrnged arbennig yn y capel ac i'r Parch William J. Lewis a'r Canon Idris Thomas am eu cyfraniad yn y gwasanaeth.

Diolch i Lorna Lewis ac Annette Bryn Parri am gyfeilio yn y capel a'r amlogfa. Dymuna'r teulu ddiolch hefyd i Dylan a Meinir Griffith am y trefniadau canmoladwy.



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf,
Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Gwasanaethau y Capel

Ar Fai 4ydd am 2 o'r gloch, gwasanaethir gan Y Parch Marcus Robinson.

Ar Fai 25ain, am 2 o'r gloch hefyd, gwasanaethir gan Mr Richard Ll. Jones.

Diolch Mae Mr Dafydd Roberts, Tai Brynteg, yn ymddeol wedi blynyddoedd lawer o ofalu am laswellt y fynwent a chadw'r tir mor daclus. Diolchwn yn fawr iddo am ei lafur, a dymunwn ymddeoliad braf iddo.

Llongyfarchiadau i Mr Viv Morgan, Tyddyn Uchaf, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn ystod mis Ebrill.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhys ac Elin, Ty'n y Coed, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Deio Rhys. Dymuniadau gorau a phob bendith.


Clwb Merched Ar Fai 24 cawsom sgwrs ddifyr iawn gan Alwen Nicholson, fferylllydd yn Ysbyty Gwynedd, ar y newidiadau ym myd fferylliaeth yn ystod y blynyddoedd diweddar. Diddorol iawn oedd cael cipolwg ar adran brysur iawn o Ysbyty Gwynedd, a diolchwn yn gynnes iawn i Alwen. Fis Mehefin byddwn yn cychwyn yn gynharach nag arfer, am 6 o'r gloch, ar daith o gylch tref Caernarfon yng nghwmni Emrys, gan orffen gyda swper ym mwyty Wal. Bydd angen rhoi enwau i Rhiannon cyn diwedd Mai os gwelwch yn dda.

Tynfa Misol Dyma restr enillwyr Mis Ebrill

Alwyn a Nia Jones, Y Dderwen (104): £40; Sandra Roberts, 5 Bryn Gof (58): £25; Mirain Owen a Tim Walker, Brynhyfryd (106): £15; ac Aled Jones, 9 Rhes Glangwna (46): £5.

Cae chwarae Mae gennym gae chwarae ardderchog i'r plant yng Nghaeathro ond daeth cwynion i sylw y pwyllgor bod sbwriel yn cael ei ollwng yno. Mae aelodau y Pwyllgor Cae Chwarae yn gofyn yn garedig i bawb ddefnyddio'r bin pwrpasol ac i annog eraill i wneud run fath.

Cefnogwch ein hysbysebwy



FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922


Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.ffmpegia.com



dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

Ysgol Bethel



GWEITHDY TECHINQUEST Bu'r Adran Iau yn cymryd rhan mewn gweithdy Gwyddoniaeth, Bright Sparks gan Techniquet, a bu'r Babanod yn cymryd rhan mewn gweithdy Music Maker gan yr un cwmni.

DIWRNOD GOLCHI Bu dosbarthiadau Lliwedd a Seion mewn gweithdy Diwrnod Golchi yn yr Amgueddfa Lechi fel rhan o'u gwaith dosbarth.

CYFARFOD CARWYN JONES Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 y profiad ysgogol o gyfarfod Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru. Buont yn eu holi gyda chwestiynau treiddgar iawn, cystal ag unrhyw Jeremy Paxman! Diolch i'r Cyng. Siôn Jones am y gwahoddiad.

DIOGELWCH YWE Cafodd disgyblion yr Adran Iau gyflwyniad ar Ddiogelwch y We gan PC Neil Williams.

DIWRNOD Y LLYFR Dathlwyd Ddiwrnod y Llyfr eleni, gyda'r plant yn gwisgo fel un o'u hoff gymeriadau llyfr a phob dosbarth yn cynnal amrywiol weithgareddau.

CYNGERDD GWYL DDEWI Cynhaliwyd Cyngerdd Gŵyl Ddewi anrhydeddus iawn eto. Gwahoddwyd Clwb Bro Bethel am de a chyngerdd, a braf oedd gweld cynifer o Lywodraethwyr hefyd yn bresennol. Fe berfformiodd y plant yn ardderchog yn ôl eu harfer. Diolch i ddosbarth Elidir am baratoi'r lluniaeth.

AROLWG STRYD FAWR Cynhaliodd Blwyddyn 6 Arolwg Stryd Fawr er mwyn adnabod gwelliannau posibl ar gyfer y pentref. Cyflwynwyd syniadau'r plant wedyn i'r Cyng. Siôn Jones i'w hystyried.

CYMRU CŴL Fel rhan o weithgareddau'r Siarter Iaith, cynhaliwyd Wythnos Cymru Cŵl. Yn ystod yr wythnos, roedd gwaith y dosbarthiadau yn seiliedig ar Gymru. Ymysg gweithgareddau'r Adran Iau oedd cyflwyniad ar hanes eu bro gan Gareth Roberts. Roedd hwn yn brofiad arbennig iawn a wefreiddiodd y plant.

SPORTS RELIEF Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn brysur yn trefnu gweithgareddau Sports Relief. Eleni buont yn gwerthu bandiau chwys a bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhedeg.

TAITH CAERDYDD Bu Blwyddyn 6 ar daith breswyl i Gaerdydd gyda Mr Parry, Mrs Gaffey a Mrs Guillemin. Cafodd y plant amser gwych, gan ymweld â Phwll Mawr, Stadiwm y Mileniwm, Sain Ffagan a Techniquet. Roedd amser ar gyfer adloniant hefyd a min nos cawsant fynd i nofio, i wyllo ffilm Lego yn y pictiwr a gwario eu harian yn yr arcêds! Diolch i'r staff am fynd i oruchwyllo a gofalu am y plant ac i Sasha am drefnu'r daith.

CYFARFOD PRISIO HEN BETHAU

Aeth bron i bedair blynedd heibio er pan gynhaliwyd cyfarfod ar y thema hon gan Bwyllgor Gweithgareddau Capel Cysegr o'r blaen. Bu'r cyfarfod hwnnw mor llwyddiannus, gydag ugeiniau o bobl o Fethel a'r tu hwnt yn bresennol, fel bod aelodau'r Pwyllgor wedi penderfynu ymateb i'r ceisiadau a glywyd o fwy nag un cyfeiriad i ni drefnu noson arall ar yr un llinellau.

Felly, nos Fercher, Mai 21, am 7 o'r gloch, cynhelir cyfarfod Prisio Hen Bethau unwaith eto yn Festri Capel Cysegr. Mae'r cyfarfod yn agored i bawb yn yr ardal a'r tu allan. Y prisiwr, fel o'r blaen, fydd Mr Simon Bower, ocsiwniwr gyda Chwmni Morgan Evans yn y Gaerwen. Mae wyneb Simon erbyn hyn yn adnabyddus i bawb sy'n gwyllo 'Bargain Hunt' ar y teledu - mae'n ymddangos yn bur aml ar y rhaglen honno ac yn cael cyfle i arddangos ei ddoniau fel ocsiwniwr a hefyd fel un sy'n gyfarwydd iawn â phrisio amrywiaeth o greiriau a hen bethau o bob math.

Bydd ychydig o newid yn nhrefn pethau y tro hwn, o fod wedi dysgu drwy brofiad yn dilyn y cyfarfod bedair blynedd yn ôl! Bydd pawb yn cael tocyn â rhif arno wrth ddod i mewn a bydd y rhif hwnnw'n dynodi'r drefn y caiff pobl eu galw ymlaen i Simon gael prisio eu heitem (a dim ond UN eitem i bob unigolyn a gaiff sylw'r prisiwr). Y tocyn hwn hefyd fydd tocyn raffl y prynwr. Caiff Simon Bower ryddid i ddweud gair neu ddau yn gyhoeddus am ambell eitem a allai fod o ddiddordeb arbennig a hefyd i gyhoeddi beth yw ei amcanbris am yr eitem os yw'r perchennog yn fodlon i bawb gael gwybod hynny.

Pris mynediad i'r cyfarfod fydd £3 a bydd hynny'n cynnwys prisio un eitem, tocyn raffl, a phanad a bisgedan. Bargan, os bu un erioed!

Cymdeithas Lenyddol Undebol Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth o'r Gymdeithas dan lywyddiaeth Dr J. Elwyn Hughes, - noson hwyliog iawn gan mai 'Hiwmor' oedd testun sgwrs William Owen, Borth

y Gest. Soniodd yn bennaf am hiwmor pobl y Capel, a chawsom storïau difyr am nifer o gymeriadau yr Ysgol Sul, hiwmor ambell i garreg fedd, ac roedd ymateb y gynulleidfa yn dyst i foddhad a llwyddiant y noson.

Priodol iawn oedd i 'ddyn y Capel', sef y Parchedig Marcus Wyn Robinson gynnig gair o ddiolch am orig ddifyr iawn a ddaeth â gwen i wyneb pawb oedd yn bresennol.

Clwb Bro Bethel Wrth groesawu pawb i gyfarfod mis Ebrill gan y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson llongyfarchwyd Ivy Wright a'i gŵr Len ar ddathlu pen-blwydd priodas aur yn ddiweddar a dymunodd yn dda i Manon, merch Ann Ellis Williams ar drothwy ei phriodas. Anfonwyd cofion at John Evans Penparc, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr Ysbyty yn Lerpwl. Darllenwyd gohebiaeth oedd wedi cyrraedd o Age Cymru, ac hefyd llythyr oddi wrth Cyfeillion y Samariaid, Cylch Bangor yn diolch am rodd ariannol trwy law Geraint Huws Roberts.

John G. Jones oedd yn annerch yr aelodau a chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gyda chymorth lluniau o'i gyfnod fel Tywysydd yn y Gemau Paralympaidd yn Llundain ym 2012. Roedd yn un o 1,400 allan o tua 35,000 oedd wedi cael eu dewis i ymwneud â'r gwaith a fo oedd yn gyfrifol am dîm o 274 athletwyr yr Unol Daleithiau. Roedd ei ddyletswyddau yn amrywio o ddydd i ddydd, sef didoli dillad i'r athletwyr, gofalu fod yr holl offer yn cael eu cadw'n ddiogel, hebrwng pobl bwysig o'r maes awyr ayyb. Gwelsom lun ohono yn cario'r faner o flaen tîm yr UDA cyn ei throsglwyddo i'r Seremoni Agoriadol. Yn sicr roedd wedi cael profiadau anhygoel yn ystod y cyfnod a theimlai yn freintiedig iawn ei fod wedi bod yn rhan o ddigwyddiad mor gyffrous.

Richard Llwyd Jones dalodd y diolchiadau, a hynny ar ffurf englyn!

Y mis nesaf Ann Hopcyn, Caernarfon, fydd y wraig wadd a hynny ar Mai 6ed. yn Festri Cysegr.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

Merched y Wawr

Merched y Wawr, Bethel Croesawodd Jen, ein Llywydd, nifer dda iawn o'r aelodau i gyfarfod Ebrill yn Festri Cysegr nos Fercher y 9fed Ebrill. Croesawyd hefyd Cécille Roberts, Ffrances sy'n byw ym Methel ac wedi dysgu Cymraeg yn arbennig o dda.

Dymunwyd gwellhad buan i John, gŵr Liz, sydd adre wedi triniaeth yn Lerpwl, hefyd Siencyn, gŵr Glenys sydd ddim wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd Mair Read a Rhian Hughes sy'n dathlu penblwydd arbennig yn ystod y mis.

Darllenwyd llythyr gan Gethin yn diolch am y croeso a'r bwyd gafodd Gwilym Rhys ac yntau yn ein cinio Gŵyl Dewi. Rydym yn falch o weld fod y ddau yn rhan o'r adloniant yn niwrnod Gŵyl y Pum Rhanbarth a gynhelir ym Mangor Mai 10fed. Darllenwyd adroddiad o bwyllgor Celf a Chrefft a gynhaliwyd Chwefror 24ain. Cyhoeddwyd fod noson Celf a Chrefft Rhanbarth Arfon i'w chynnal yn Neuadd Tregarth nos Wener, Mehefin 20fed.

Bu Glenys ac Eirlys yn cadw'n noson o ddistawrwydd nodedig yn ddiweddar.

Croesawodd Jen, Geraint Thomas, Panorama, Caernarfon, y gŵr gwadd sy'n gweithio'n galed yn tynnu lluniau mewn priodasau, portreadau a thirluniau o'r ardal.

Cyhoeddodd lyfr Eryri - Cyfrinachau ein Llynnoedd a dyna oedd ei sgwrs am y noson. Mae 144 o lynnoedd yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri, a llwyddodd yn ystod y ddwy flynedd bu'n gweithio ar ei lyfr i dynnu lluniau ohonynt gan lwyddo i gael storïau difyr yn gysylltiedig â hwy. Llyfr arall a gyfrannodd ato yw 100 golygfa gorau Cymru gan gydweithio efo'r Athro Gwyn Thomas. Ei waith nesaf fydd tynnu lluniau yn dilyn ffordd Sarn Helen o Gonwy i Gaerfyrddin.

Diolchodd Mair Read i Geraint ar ran y gangen am noson arbennig iawn gan rhoi gwledd i'r llygad efo'r lluniau a phleser mawr efo'i straeon difyr.

Diolchodd Jen i Eva am drefnu'r baned efo Falmai a Gwyneth, ac enillwyd y raffl gan Eleri Warrington.

Dosbarthwyd bwydlen mis Mehefin, i'w dychwelyd efo'r arian a'r dewis bwyd i'r cyfarfod nesaf neu i Anne, Jen neu Gwyneth cyn Mai 25ain.

Cofiwch bydd lluniau'r noson ar wefan www.mywbethel.org. Braf yw cael cyhoeddi fod y wefan wedi bod yn llwyddiannus iawn ers ei sefydlu mis Medi diwethaf, cafwyd 1,843 yn ymweld â'r safle ym mis Medi ac erbyn mis Mawrth roedd 3,208 wedi ymweld â'r wefan.

Mis nesaf byddwn yn croesawu Helen Holland o gwmni 'Môn ar Lwy', pryd cawn flasu Hufen Iâ blasus y cwmni o Fôn.

Pel-droed Adran Urdd Bethel.



Llongyfarchiadau i dim 7 bob ochr pêl-droed oed cynradd Adran Urdd Bethel. Yn ddiweddar buont draw ym Mhorthmadog yn ymgiprys am dlws rhanbarth Eryri. Roedd 22 o dimau yn cystadlu ar y noson. Noson hir, gystadleuol felly. Mae aelodau'r tim ym ML5/6 yn Ysgol Bethel. Wedi eu gorchest ym Mhort, bydd y bechgyn yn mynd draw i Aberystwyth ar gyfer Gŵyl Chwaraeon yr Urdd ar Fai 10. Pob lwc iddynt yno. Mae'r Adran yn hynod falch o gyfraniad Gareth Jones a Darren Evans am ei cymorth yn gwarchod a hyfforddi'r tim.

Aelodau'r garfan:

Rhes Gefn : Dylan, Bedwyr, Celt, Cai, Ioan

Rhes Flaen: Sion, Rhys, Elis, Ben

Mynwent Llanddeiniolen

Ar ôl 14 mlynedd o dorri gwair ym Mynwent St Deiniol, Llanddeiniolen, mae Mr Dick Williams yn gorfod ymddeol o'r swydd oherwydd gwaeledd. Dymuna pawb ddiolch am bob caredigrwydd a chydweithrediad a dderbyniodd yn ystod y blynnyddoedd.

Priodas Aur

Dymuna Ivy a Len Wright, 2 Tan y Buarth, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur eu priodas Aur yn ddiweddar.

Dymuna Gwyneth, 36 Bro Rhos, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion a gafodd

tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch o galon i bawb.

Diolch. Dymuna Mrs Gwyneth Hughes, 36 Bro Rhos, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y galwadau ffôn, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ac ar ôl dychwelyd gartref.

Bore Coffi.

Cynhelir bore coffi yn y Neuadd Goffa ar 21ain o Fai am 10.30 y bore. Bydd byrddau gwerthu, cacennau, crefftiau a raffl. Yr elw at Grŵp Apêl Uned Cancr a Hematoleg Alaw. Croeso cynnes i bawb. Dewch i gefnogi'r achos da hwn.

SWYDDFA POST BETHEL

Ffôn (01248) 670261

COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.

Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI, A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

LLUN-SADWRN
5.30am-7.30pm
DYDD SUL
5.30am-3pm


TM JONES

SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

SYNUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com



J. M. JONES

a'i FEIBION

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

R Geraint Roberts

Teyrnged i R. Geraint Roberts Caernarfon a fu farw yn ddiweddar ond a dreuliodd ei flynyddoedd cynnar yn Creigle, Brynrefail.

Mae'n anodd dweud a yw cyflwyno teyrnged i un o'ch teulu yn weithred hawdd ynte, oherwydd y berthynas deuluol, yn weithred anodd. Ta waeth, pleser yw cyflwyno hyn o eiriau fel teyrnged i Geraint Roberts (gynt o Creigle, Brynrefail) ond, wedi priodi â Siân, a ddatblygodd i fod yn 'gofi' dros ei glustiau.

Yn naturiol, yr atgofion pan yn byw ym Mrynrefail a erys gyda mi, ac er ein bod yn gefndryd – 'Willias' oedd dull Geraint o'm cyfarch i a 'Robaits' fyddwn innau yn ei alw yntau. Pysuraf i ddweud mai arwyddion o gryn agosatrwydd oedd y cyfarchion hynny.

Roedd Geraint a minnau â pheth diddordeb mewn pêl-droed a nosweithiau llawen. Fe sefydlais barti Noson Lawen ym Mrynrefail flynyddoedd yn ôl bellach a Geraint oedd un o'r cyfeilyddion. Un o bleserau a ddaeth i'w ran o gofio mai ei daid oedd Robert Lloyd Roberts (Ffrwd Alaw). Heb os fe gafodd Robert Lloyd fwy o lwyddiant efo Geraint fel dysgwr nac a gafodd efo mi.

Cofiaf y ddau ohonom, mewn munud o wallgofrwydd, yn penderfynu hel parti o genod ifanc (yn famau a neiniau erbyn hyn) at ei gilydd i gystadlu fel Parti Unsain yn Eisteddfod Disgwylfa, a'r gân oedd 'Aderyn bach yn canu'n iach'. I'r rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â'r llwybrau o gylch Brynrefail, mae un llwybr eitha hwylus yn arwain heibio Pant y Buarth, Llwyn Cogau a mannau diarffordd eraill i Glwt y Bont a dyna'r llwybr a droediwyd gan barti Brynrefail a Geraint yn cyfeilio yn hogyn ifanc iawn. Do, fe gawsom y wobwr gyntaf ac roedd hi'n 'Dere di – dere do' bob cam adref.

Pêl-droed oedd diddordeb 'Robaits' pan yn ifanc a, bryd hynny, trefnwyd sawl gêm gyda'r nos yn answyddogol ar gae chwarae yr Ysgol Ramadeg leol, ond gyda holl frwdfrydedd ei swydd aruchel, gofalai William Williams (yr Hen Gêr) nad oeddem i fwynhau gêm gyfan ar y maes sanctaidd hwnnw. Geraint fyddai gôl-geidwad Brynrefail a chymerai ei barchus swydd gyda chyn gyfrifoldeb bob amser.

Wedi priodi ymunodd Geraint â'r Eglwys yng Nghymru ac unwaith eto rhoddodd wasanaeth hir a thra canmoladwy fel organydd Eglwys Dewi Sant (dros dro) ac Eglwys y Santes Fair yng Nghaernarfon hyd i'w iechyd ballu.

Estynnir ein cydymdeimlad â Siân, ei briod, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth a diolchaf am lu o funudau i'w trysori, boed mewn noson lawen ym Mrynrefail neu ar y cae chwarae gydag un llygaid ar ymweliad y gŵr a gymerai ei swydd fel gofalwr gyda chryn ddifrifoldeb bob amser.

Heb os, rhoddodd Geraint o'i ddawn gerddorol ble bynnag y trigai – a gwn i bobl Brynrefail, fel trigolion Caernarfon, gydnabod ei barodrwydd bob amser i gyfrannu.

Rol Williams

Llongyfarch Dymuna Elen, Anna a Nia George, Sŵn yr Engan, longyfarch Rhian yn gynnes iawn ar ennill gradd M.A. mewn Llenyddiaeth Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Sefydliad y Merched I ddathlu Gŵyl Ddewi eleni fe aeth y gangen leol am bryd o fwyd i Goleg Menai, Ffriars, Bangor. Cafwyd noson arbennig o hwyllog a chyfeillgar.

Yng nghyfarfod mis Mawrth ymwelodd yr aelodau â Gweledfa, cartref Moira Ellis, i weld ei gwaith llaw niferus oedd yn dangos y ddawn arbennig sydd ganddi i greu delweddu pobl a thirwedd o ddefnyddiau gwahanol. Nos Iau, Mawrth 13eg, roedd aelodau'r gangen yn rhan o raglen radio Byd Natur o dan arweiniad Gerallt Pennant a gynhaliwyd yn y Clwb Cymdeithasol, Llanberis. Yn cynrychioli ar y panel yr oedd Twm Elias, Tudur Jones, cyn heddwys yng Nghaernarfon sydd yn arbenigo mewn byd adar ynghyd â phen garddwr Plas yn Rhiw. Cafwyd amrywiaeth o gwestiynau ac atebion gwych. Darlledwyd y rhaglen ar Ebrill 5ed.

Ymhlith gweithgareddau Ebrill roedd ymweliad pump o'r aelodau â Choleg Denman ger Rhydychen ar gyrsiau penwythnos yn datblygu gemwaith arian o glai arian ac eraill yn ymweld â Phalas Blenheim.

Croesawyd Sarah Middleton i'r gangen leol i ddangos ei gwaith yn creu Ciennatype. Roedd ganddi arddangosfa gwerth chweil o'i gwaith ac fe gafodd pawb gyfle i ddilyn y broses o greu darlun ar gerdyn trwy osod dail a defnyddiau a'u gorchuddio â hylif arbennig a'i roi dan olau. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn. Edrychwn ymlaen yn awr at y chwarae Bowlio Deg yn Llandudno gyda Grŵp Eryri a'r tîm dartiau fydd yn mynd ymlaen i Bwllheli i'r rowndiau terfynol.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r gangen. Rydym yn cyfarfod yn y Caban, Brynrefail ar y drydedd nos Iau o bob mis.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd

Y Gymdeithas Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Gymdeithas am y tymor nos Iau, Ebrill 3ydd. Y cadeirydd oedd Gwyn Hefin Jones, Rhandir a chroesawodd pawb i dymor newydd o weithgareddau. Yn dilyn defosiwn perthnasol i thema'r noson, seiliedig ar yr ymdrechion i geisio dwyn tangnefedd i'r byd croesawodd y siaradwr gwadd, y Parch Marcus Robinson. Cawsom ganddo ef adroddiad diddorol a bywiog o'i brofiad fel Caplan yn y Llynges Brydeinig. Diolchwyd yn gynnes iddo gan y cadeirydd a chafwyd cyfle ar y diwedd i holi a thrafod ymhellach am y cyfnod arbennig hwn o ugain mlynedd yn ei yrfa. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mai 1af. Y siaradwr gwadd fydd y Parch Geraint Roberts, Porthaethwy a'r cadeirydd fydd Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed.

Oedfa'r Pasg Bnawn Sul, Ebrill 20fed, i ddathlu Gŵyl y Pasg cafwyd oedfa arbennig dan arweiniad y Canon Idris Thomas, Deiniolen, Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Oedfaon Mai

4 am 5.30	Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
11 am 5.30	Richard Lloyd Jones, Bethel
18 am 5.30	Parch Cath Williams, Caernarfon
25 am 5.30	Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan

TEITHIAU CERDDDED MIS MAI

LLUN 5 MAI 11.00yb a 1.15yp
TEITHIAU LÔN WEN, RHOSGADFAN (2½-3 milltir)
Dwy daith wedi eu seilio ar lyfr Kate Roberts. Ar y cyd a CADW.
Cychwyn: Canolfan Kate Roberts, Rhosgadfan.
Ychydig yn anodd ar adegau. Angen sgidiau cerdded.

IAU 15 MAI 2.00yp
PLAS GLASGOED A STABLAU
Cychwyn: Eglwys Penisarwaun. (Hyd at 2½ milltir)
Ychydig yn anodd ar adegau. Llwybrau Cyhoeddus a Bryniog.
Angen sgidiau cerdded.

SUL 18 MAI 2.00yp
HANES RAF LLANDWROG (4 milltir)
Cychwyn: Maes Parcio, Maes Awyr Caernarfon
Eitha hawdd. Angen sgidiau cerdded.

LLUN 19 MAI 6.45yh
HANES EGLWYS LLANDDEINIOLEN (¾ milltir)
Ar y cyd a Cymdeithas Archaeoleg Talwrn. Croeso i Bawb.
Cychwyn: Maes Parcio Y Gors Bach, Llanddeiniolen
Hawdd iawn.

IAU 29 MAI 2.00yp
TAITH CADW’N HEINI: RHAEADR ABER (2½ milltir)
Cychwyn: Maes Parcio Rhaeadr Aber
Cymhedrol. Angen sgidiau cerdded.

Mae amryw yn holi am y daith i Cwm Brwynog, uwchben Llanberis. Rydym wedi clustnodi y 1af o Fehefin ar gyfer y daith. Cewch fanylion pellach yn rhifyn Mis Mehefin yr Eco. Nid oes dyddiad pendant agor Canolfan y cynllun yn Nhy Caxton, Stryd Fawr, Llanberis ar hyn o bryd ond ni fydd yn hir iawn. Bydd datganiadau yn yr Eco a’r cyfryngau. Yn y cyfamser mae gennym gynlluniau ar gyfer gweithgareddau a prosiectau newydd am amser maith i ddod, yn cynnwys y teithiau cerdded wrth gwrs. Os ydych eisiau awgrymu unrhyw deithiau (o fewn neu tu allan i fro’r Eco) yna mae croeso i chi wneud ac mi awn ati i ymchwilio am hanesion. Unwaith yn Ty Caxton, byddwn yn croesawu unrhyw un ohonoch sydd a diddordeb mewn dyfeisio ac arwain teithiau cerdded eich hunain. O hyn ymlaen, bydd un daith bob mis dipyn hwy er mwyn datblygu lefelau ffitrwydd i bobl sydd ag awydd dod. Hefyd, cofiwch am ein sioe sleidiau hen luniau fro’r Eco sydd wedi bod yn llwyddiant mawr . Os ydych a grwp neu gymdeithas fuasai’n hoffi ei gweld yna cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen ar 01286 872014.

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd

In various groups you (will) be a community
Supporting voluntary and community groups

Uweddau Cymru
Welsh Government
Europe & European Communities
Cwmni Ddallu, Menter a Chymdeithas
Europe & Wales Investing in your future
European Regional Development Fund

Supporting charities
and community groups
wcvawales.org.uk

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant 3420271

MODURDY’R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

Fach-Wen
(Ceiliog y Gwynt)

A fuo chi draw yn Fach-Wen ar dro
drwy’r coed o Lanbêr i Ben Llyn?
A welsoch chi ardal dlysach mewn bro
na hon; dros y dŵr o Chwarel y Glyn?

Arhoso’ chi yn ‘Felin Fargod’? – do?
ar bont Muria’ – dros y pyllau bach clir?
Fe synnwch pan ‘dd’wedaf mai ar eu gro
mae’r brithylliaid brown prydfertha’n y sir!

Ewch wedyn i fyny am Ben-‘Rallt – Siop
i’r dde ar y tro, mae tyddyn Pen’Bryn –
Os na fydd niwl a tharth – mae’n werth cael stop
mae y ‘Frenhines’ yn deg o’r fan hyn.

Wyddo’ chi, un adeg roedd côr
aelwyd y tyddyn, - ac yn bedwar llais –
Ac wedi’r oedfa ‘s talwm – chwyddan’ fôr
o foliant i Arglwydd gwerin y clais!

Oedwch ambell waith ar y lôn fach gul,
edrychwch fel mae’r tyfiant yma’n drwm,
Newid mewn cyfnod fu rhesymau’r gnul
fu’n fangre wynfydedig y cwm.

Ers talwm, roedd sawl tyddyn buwch-a-llo
a’r chwarelwyr blin yn gweithio eu llain,
Heddiw nid ydynt ond ‘canfas y co’
ar goll am byth, a’u gweirgloddiau dan ddrain.

I bob tŷ roedd twlc – a chlytiau yn llawn
O resi o datws a phys a ffa ...
pob tenant bwthyn yn arddangos dawn
a gofal: rhaid i’r gerddi gnydio’n dda!

Wnaethoch chi aros ar y lôn am sbel?
O’r golygfeydd o’r Ysgol i lawr!
Gynt, cyn mynd i’r ciando, roedd rhai yn hel
am stelc a sgwrs, clecs o’r hen Chwarel Fawr?

A glywsoch chi blant neu siarad yr iaith?
(‘sa fydd rhen Dafydd o gwmpas y lle?)
Ni welwch lythyrdy – a dim ond craith
yw Siop Wil! Mae TESCO ar gwr y dre!

A beth am y ‘blwch’ – y capel a’i hynt?
mae’n dŷ annedd – pensaerniaeth yr oes ...
Os craffwch: sylwch! Gwrach yw’r ceiliog gwynt
mae yn adrodd stori Fach-Wen – ar Groes!

Ond, fuo chi’n Fach-Wen ar fachlud mwyn
wna Eryri’n dapestri o liw,
a Mai, a’r cogau, a sawr o bob llwyn ...
nid oes unman tebyg ar ddaear Duw!

Norman Closs



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Gwenith Gwyn a Llên gwerin.

Addewais y mis diwethaf gynnwys adroddiad gan Robert J. Williams o'r Waunfawr mewn ymateb i'r hanes am gladdu merch ifanc o Glwt y Bont. Yn y cyfamser, cysylltodd Mair Foulkes, Penisarwaun hefyd, gyda mwy o wybodaeth, gan fod cysylltiadau teuluol ganddi â'r teulu hwn o'r Fachwen. Gyda diolch i'r ddau ohonoch am wybodaeth fanwl.

William Rhys Jones oedd y gweinidog y cyfeirir ato yn angladd y ferch o Glwt y Bont. Ar y pryd roedd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr ym Mhenrhyn Coch ger Aberystwyth, ond un o feibion Y Fachwen oedd, ac yn berthynas i'r ymadawedig. Ganwyd ef ar 30ain o fis Rhagfyr 1868 yn Bron Ceris, Fachwen, tŷ a adeiladwyd gan ei rieni ar dir Garnedd Wen. Ei dad oedd Dafydd John Jones, a dengys y cyfrifiadau iddo gael ei eni yn Llanwnda, Sir Benfro. Ei dad yntau oedd John Jones, a alwai ei hun yn Ioan Ifor, a hanna ei deulu o blwyf Llanrug. Chwaraeodd Ioan Ifor ei ran yn natblygiad y diwydiant llechi led-led Cymru. Teithiodd i ardal Penmachno, Ffestiniog, Dyffryn Ceiriog a Phenfro i ddarganfod gwythiennau llechi. Tra ym Mhenfro cyfarfu â'i wraig, Dorothy Rees, ac yno y ganwyd John a Dafydd, eu dau fab hynaf. Dychwelodd y teulu i Arfon. Ganwyd dwy ferch – Dorothy a Mary – yn Llanrug, ac yna Daniel, Evan, Hannah, Ann a Martha ym Mron Ceris.

Priododd Dafydd John Jones gyda Hilda Williams, merch William William Hughes a Hannah, Stryd y Llyn, Caernarfon. Yn ôl nodiadau teuluol roedd William William Hughes yn wreiddiol

o'r Ceunant, ac yn hannu o'r un cyff a Ioan Ifor. Cafodd Dafydd John Jones droedigaeth yn Niwygiad 1859, a bu'n flaenor ffyddlon gyda'r Bedyddwyr yng Nghapel Sardis, Dinorwig.

Ym Mron Ceris ganwyd tri o blant i Dafydd John a Hilda Jones: William Rhys, (Rees mae'n debyg ar ôl cyfenw ei nain o'r de), Dorothy Ann a Hannah Lizzie. Bu'r ddwy chwaer yn athrawesau yn Ysgol Dinorwig. Bu William Rhys yn gweithio am gyfnod mewn siop ddillad cyn astudio ym Mangor a Llangollen er mwyn cael ei dderbyn i'r weinidogaeth gyda'r Bedyddwyr.

Ordeiniwyd William Rhys Jones yn weinidog yn 1892 a derbyn ei alwad gyntaf i Gapel Horeb, Penrhyn Coch. Arhosodd yno hyd 1894. Bu'n gweinidogaethu wedi hynny ym Mhenrhwiwceiber, Llansanffraid Dyffryn Ceiriog, ac yn olaf, yn Y Barri. Bu farw yn 1937. Roedd ganddo ddwy ferch; Hawys Nesta Rhys Jones a fu'n athrawes yn Y Barri, a Marsia Gwynedd a fu'n athrawes yng Nglyn Ceiriog.

Roedd gan William Rhys ddiddordeb mewn llên gwerin, a galwai ei hun yn Gwenith Gwyn pan ysgrifennai i wahanol gyfnodolion. Roedd yn awdur nifer helaeth o ysgrifau ar y pwnc.

Ar cysylltiad rhyngddo a'r ferch ifanc o'r enw Mary Jones a gladdwyd o Glwt y Bont? Roeddent yn hannu o'r un teulu. Roedd mam Mary Jones yn hannu o deulu Bron Ceris, ac fel gweddill y teulu, yn Fedyddwyr rhonc.

Roedd y Mary Jones a fu farw yn fodryb i Mrs Mary Jones a'r diweddar Idwal Jones, Tan y caerau, Clwt y Bont. Roedd Mary Jones arall, sef chwaer Dafydd John Jones (tad William Rhys), yn hen nain i Mair Foulkes.

Dyna ddigon o gysylltiadau teuluol am y tro! – ond byddwn yn falch o dderbyn gwybodaeth am gyhoeddiadau llên gwerin Gwenith Gwyn. Tybed a oedd yn cyfeirio at rai o goelion a thraddodiadau'r fro hon yn ei ysgrifau?


Darganfod Cae Eithin.

O'r diwedd daeth lleoliad Cae Eithin i'r amlwg. Fe'i darganfyddais ar fap 1888, ac wedi ei enwi, fel nad oes unrhyw amheuaeth bellach am ei leoliad. Mae'r copi gyferbyn yn dangos ble roedd. Doedd hi fawr o drafferth wedyn i chwilio drwy Arolwg 1867 o diroedd y Faenol yn Llanddeiniolen, a darganfod nad fferm 40 acer mohoni fel yr awgrymir yng Nghyfrifiad 1851. Rhan o fferm Pen y Bryn oedd Cae Eithin, a thenant y fferm honno yn 1867 oedd Robert Roberts, sy'n cofnodi cyfanswm aceri ei fferm yn 39 acer a hanner. Dangosir adeilad ar y Map Arolwg, ac enw'r cae yw Cae Eithin. Yn y disgrifiad o'r caeau ar y fferm, enwir yr adeilad fel Cae Eithin Cottage. Does ryfedd felly nad oedd y lle yn cael ei ddisgrifio fel fferm yn y cyfrifiadau diweddarach: chwarelwyr neu weithwyr amaethyddol oedd yn rhentu'r bwthyn ar dir fferm Pen y bryn.

Tra roeddwn yn chwilo am y wybodaeth hon, cefais alwad ffôn gan Ieuan Williams, Bethel, yn awgrymu mai adfail rhwng ffermydd Y Gors, Rhydu a Glan y Gors oedd Cae Eithin. Fe'i

magwyd yn Bryn Eithin, Waun Penisarwaun, ac yn blentyn arferai chwarae yn yr hen adfail. Mae wedi ei leoli gerllaw'r llwybr cyhoeddus o ymyl fferm Y Gors i'r Rhydu, ac yn agos iawn at lwybr yr hen ffordd haearn a arferai gario llechi o Ddinorwig cynadeiladu'r rheilffordd. Does fawr ddim o'i ôl bellach, a'r safle yn ddrysi o ddain. Ond gan y gwyddom bellach nad Cae Eithin ydoedd, beth oedd enw hwn?

Tra'n chwilio ym mapiau Arolwg y Faenol deuthum hefyd ar draws enw hollol ddieithr i mi: Parc y Person. Roedd wedi ei leoli rhwng Bryn Eithin a Ffynnon Cegin Arthur. Mae'r rhan helaethaf o'r tir erbyn heddiw wedi ei orchuddio â choedwig. Ond pam Parc y Person? Pwy oedd y person? Os oes unrhyw wybodaeth ar gael, rhowch wybod.



ARVONIA



- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvonibus.co.uk

Ysgol Waunfawr 1942-43.



Gyda diolch i Mr John Tudor Owen, Heswall (Glan Gors, Ceunant gynt) am anfon y llun o ddisgyblion Ysgol Waunfawr yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a'u henwi i gyd hefyd. Dyma'r enwau fel y cofnodwyd hwy ar gefn y llun:

Rhes gefn (chwith i'r dde): Alun Mabon, John Tudor, Raymond Griffith, Emlyn Ludds, Alun Jones, Bobby Rear.

Rhes ganol (chwith i'r dde): Megan Wyn Jones, Eirlys Jones, Glenys Pritchard, Betty Ellis, Grace Jones, Blanche Williams, ? Cae Main, Nancy.

Rhes flaen (chwith i'r dde): Elwyn Ty'n Coed, Tony Hollbrook, Billy Lewis, ?, Buddug, Carys Barlow, Thomas Hughie, Arwyn, ? Hollbrook, Eric Jackson.

Yr athro yw Mr Williams.

Bws Cynnar o'r Waunfawr.

Mae'r mwyafrif o bobl y fro hon a thu hwnt yn cysylltu Cwmni Bysus Whitewayefo'r Waunfawr. Ond tra'n chwilota yn yr Archifdy yn ystod y mis diwethaf deuthum ar draws y cofnod hwn am fws yn eiddo i Trevor Roberts, Cae Gwyn, Waunfawr. Rhify bws oedd CC3370 ac fe'i cofrestrwyd gyntaf yn 1922. Fe'i prynwyd ganddo oddi ar Gwmni y North Wales Silver Motors yn Llandudno, ac yr oedd 14 sêr ar y bws. Dennis oedd ei wneuthuriad, a'i liw oedd glas a melyn. A dyna'r cyfan o wybodaeth oedd ar gael.

Oes unrhyw un o'r Waunfawr yn cofio bws melyn a glas yno? A phwy oedd Trevor Roberts a sut fath o gwmni oedd ganddo? Tybed oes llun o'r hen fws cynnar hwn ar gael?

Casglu Hen Luniau.

Daeth nifer o unigolion i gysylltiad, a chynnig benthycu lluniau o'u gwahanol ardaloedd. Mae ychwanegiadau wedi eu sganio bellach o Lanberis, Llanrug a Phenisarwaun. Llauer o ddiolch am eich cydweithrediad. Ond daliwch i gysylltu.

Cysylltwch ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes bro'r "Eco" drwy lythyr i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon; ar y ffôn: 01286 673515 neu ar

chwilota.wordpress.com

Caffi Caban

ar agor

9 y bore tan 4 y pnaun- 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf
Wedi Ei Sefydlu i
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad

Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffy a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban



PROBLEM GYDACH CYFRIFIADUR?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a
GWELLA EICH CYFRIFIADURON
CYSYLLTWCH A

GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

(01286) 870462 Symudol-07962 712368

Cofio Goronwy

Crybwyllwyd mewn rhifyn cynharach o'r "Eco" am farwolaeth Goronwy Owen, gynt o Lanberis, a chyfrannwr rheolaidd i'r "Eco" yn ystod y blynyddoedd cynnar, gyda'i ysgrifau a'i storiâu am ddyddiau plentyndod ac ieuencid yn yr ardal. Rydym yn falch o gael cyhoeddi teyrnged ffrind iddo, Y Parch Dewi Thomas, a gyhoeddwyd ym mhapur bro Yr Hogwr. Gyda diolch am yr hawl i ail gyhoeddi teyrnged haeddiannol i un a fu'n diddori ein darllenwyr ninnau ugain mlynedd a mwy yn ôl.



O bryd i'w gilydd, ymddengys un sy'n wahanol rhywsut; un arbennig; un sy'n hawlio parch pawb; a hefyd mae ei weithredoedd a'i anian yn hawlio sylw - y math o berson mae pob un ohonom yn ei edmygu ac yn ymdrechu i ddilyn ei esiampl. Dyn felly oedd Goronwy Owen, un oedd yn hanu o fro arall ond oedd wedi priodi - mewn mwy nag un ystyr - i mewn i'r ardal hon. Fe briododd ferch o ardal Port Talbot: Hannah Beryl neu Nan fel y'i gelwid ac fe'i carodd a'i holl galon. Ac fe godon nhw fab: Hywel. Bu Nan farw dwy flynedd ar hugain yn ôl.

O'r Coleg Normal, Bangor, treuliodd Goronwy ei flynyddoedd cyntaf fel athro yn Surrey a bu wrth ei fodd yno'n ymarfer ei sgiliau yn hyfforddi mabolgampau a chwaraeon. Serch hynny, roedd hiraeth yn llechu yn ei galon ac, ymhen amser, daeth yn ôl i Gymru gan ddod â'i fedrusrwydd, ei ddawn a'i brofiad gydag ef.

Soniai yn aml am y blynyddoedd dymunol a dreuliodd yn dysgu yng Nglyncorrwg, ei hoffter arbennig o'i waith gyda ieuencid y fro a'r llu o ffrindiau oes yn y cwm. Bu hefyd yn ŵr gwadd yn ystod dathliadau diweddar Glyncorrwg. Ym 1964 a than ei ymddeoliad, bu'n Brifathro Ysgol Gymraeg Pont-rhyd-y-fen. Yn ei waith fel Prifathro roedd yn ei elfen a llwyddodd, gyda'i ddoniau fel arweinydd, i ddylanwadu ac ysbrydoli ei staff a'i ddisgyblion.

Dyn pwyllog, ffein, tawel, digynnwrf, diymffrost oedd Goronwy, na welwyd byth yn rhuthro, bob amser yn ei le yn brydlon, bob amser yn barod â'i wên yn lledu ar draws ei wyneb. Credai'n gydwbybodol mewn paratoi trylwyr ar gyfer bob gweithgaredd ac fe barodd i mi synnu a rhyfeddu, tro ar ôl tro, at ei ddawn a'i dalent.

Pan fyddai ar ei draed, yn diolch neu'n annerch yn gyhoeddus, gwelwyd ei allu naturiol wrth ddewis yr union air yn ei frawddegau gafaelfgar, trefnus, i gyfleu ei feddyliau i'r blewyn. Parabl gwerth ei wrando oedd ei stori ef bob amser, ac ôl ffrwyth ei ddarllen, a'i fyfyrddod, yn amlwg a digamsyniol.

Gollwng y rhaffau ac eistedd nôl oedd cyfnod ymddeol i lawer ond nid felly y dyn arbennig hwn. Bwrw ati gyda dycnwch newydd gwnaeth Goronwy.

- Chwarae'r organ ar y Sul yn Bethel
- Dal i gyflawni a chyflenwi yng Nghymdeithas Gymraeg Porthcawl.
- Parhau i hyfforddi'r Grŵp Dysgwyr Cymraeg Prifysgol y Drydedd Oes - yr U3A
- Teithio i bellteroedd byd ar ei wyliau, i arlunio - dilêit a fu'n bwysig yn ei fywyd.
- Trefnu Cymanfaoedd Canu Ysgolion Cynradd ein bro
- Mwynhau canu mewn grŵp ac ambell bedwarawd. Roedd ganddo lais bas hyfryd
- Nid pawb sy'n gwybod am y delyn yn ei gartref - a'i fod e wedi dysgu chwarae ambell dôn arni

Roedd ei hoffter o sialens yn parhau'n amlwg iawn - ar brynhawn heulog yn chwarae bowls ac yn arbennig o gwmpas y bwrdd snwcer. Doedd ei atgofion o flynyddoedd ei ieuencid ar y cae pêl-droed byth yn pylu ac yn rhan o'i sgwrs feunyddiol. Bu'n ymddiddori ym mhob agwedd o fywyd gwyllt cefn gwlad a glan môr. Ac ymysg ei hoff weithgareddau cyson oedd mynychu'r llefydd bwyta lleol i fwynhau pryd o fwyd blasus canol dydd.

Roedd Goronwy yn mwynhau bywyd ac yn ddyn oedd yn fodlon ei fyd.

Cofiwn yn annwyl iawn amdano.

H. E. HUGHES A'i Feibion

Bwthyn Gadlys Llanberis



**GWERTHWR
GLO ac
OLEW GWRES
CANOLOG**

(01286) 870444

**"FFONIWCH OS AM GAEL
MWY O 'FISITORS' DROS
YR HAF"**

tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk





Ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf

Ym mis Mawrth, cynhaliwyd gweithgareddau llawn hwyl i'r teulu cyfan yn Llanberis fel rhan o ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf, Llywodraeth Cymru. Nod yr ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf yw annog siaradwyr Cymraeg rhugl i gychwyn sgysiau yn y Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau o ddydd i ddydd neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol o fewn eu cymunedau. Mae'r ymgyrch yn targedu 8 ardal sydd wedi cael eu hadnabod yn gadarnleoedd yr iaith, ac yn ymateb i'r pryderon bod siaradwyr Cymraeg yn aml

iawn yn cychwyn sgysiau yn Saesneg mewn siopau, banciau, bwytai ac ati. Yn Llanberis roedd y gweithgareddau'n cynnwys diwrnod hwyl ym Mynydd Gwefru, helfa drenau a sesiwn stori yn yr Amgueddfa Lechi a thaith gerdded o amgylch rhai o fannau dirgel y pentref dan arweiniad Gareth Roberts, Menter Fachwen. Trefnwyd y penwythnos 'Hwyl Ddewi' ar y cyd â phartneriaeth Hunaniaith sy'n ceisio hybu defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Gwynedd. Meddai Gwenllian Mair Williams, Swyddog Datblygu

Hunaniaith ar gyfer De Arfon: "Roedden ni eisiau hybu defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd gyfeillgar a hwyliog, a dyna pam y cafodd y gweithgareddau hyn eu trefnu dros gyfnod yr hanner tymor. "Mae Llanberis yn un o'r ardaloedd a welodd gwmp sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cyfrifiad diwethaf, o 80.5% yng nghyfrifiad 2001 i 74.7% yn 2011. Y gobaith yw, gyda chymorth digwyddiadau fel Hwyl Ddewi, y gallwn rhoi terfyn ar y dirywiad yma a gwarchod yr iaith yn ei chadarnleoedd."



Mae Stephen Edwards, yn wreiddiol o Lanberis, ond bellach yn byw yn Llanfairpwll, wedi sefydlu ei gwmni dylunio ei hun ers rhai blynedd, ac y mae logo CREAD yn eithaf cyfarwydd yng ngogledd-orllewin Cymru erbyn hyn. Bu'n llais cyfarwydd ar Radio Cymru hefyd, a defnyddiodd ei brofiad ym maes radio a dylunio i ymchwilio am syniadau fyddai'n trosglwyddo i raglenni radio a theledu llwyddiannus. Rhaglenni dogfen oedd y mwyafrif ohonynt, megis O Benygroes i ben draw'r byd, Cymru ac Everest, a Straeon y Môr. Daeth y syniad am y rhaglen '75: Byth Rhy Hen' iddo tra'n treulio tair wythnos gyda'r dringwr Eric Jones yn Nepal.

Gwobr Ffilm i fachgen o Lanberis.



Bu'n trafod y syniad gydag Aled Llyr o Gwmni Slam Media, a phenderfynwyd symud ymlaen. Cyflwynwyd y syniad i S4C a chomisiynwyd CREAD a Slam Media i greu rhaglen ddogfen am Eric Jones a Jeremy Trumper yn dringo Tŵr y Diafol yn

nhalaith Wyoming, America. Darllodwyd y rhaglen ar S4C y llynedd, ac y mae fersiwn Saesneg o'r rhaglen wrthi'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd gan fod diddordeb gan gwmnïau teledu yn America. Meddai Llion Iwan, Comisiynydd Cynnwys Ffeithiol S4C

"Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n gysylltiedig â'r ffilm ddogfen gofiadwy a gafaelgar hon." Enillodd y ffilm fedal arian yng Ngwyl Ffilm Antur Sheffield eleni yng nghategori y Ffilm Ddringo Orau. Yn sgil y llwyddiant, mae CREAD a Slam Media wedi derbyn comisiwn yn ystod y mis diwethaf gan ITV i greu chwech o raglenni dogfen Saesneg o'r enw 'The Mountain'. Byddant yn cael eu darlledu fis Chwefror a Mawrth 2015. Mae'r gwaith ffilmio eisoes wedi cychwyn, ac yn naturiol ddigon, y mynydd dan sylw ar y foment yw'r Wyddfa. Fe ddylai Stephen fod yn hen gyfarwydd â'r testun gan mai ef fu'n arwain tim trefnu Ras yr Wyddfa am y chwe mlynedd diwethaf!

Enillydd y Bel Bonws am mis Mawrth oedd Mr. Dylan Owen, Plas Pengwaith.

Cymanfa'r Annibynwyr Cynhelir y Gymanfa bnawn Sul, Mai 11fed am 2.00 yn Neuadd Gymuned Penisarwaun. Cymerir y rhan dechreuol gan Ysgol Sul Ebeneser Deiniolen. Gwneir casgliad at Gynllun Efe. Bydd paned ar y diwedd.

Diolchiadau Dymuna Muriel, Hilda, Buddug a Fred, chwiorydd a brawd y ddiweddar Audrey Florence Evans, gynt o 2 Bryniau Gerddi, a fu farw yn ei chartref, ddydd Sul, Mawrth 23ain, yn 84 mlwydd oed, ddatgan eu diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Diolch arbennig i'r Barchedig Ddr. Carol Roberts am ei ffyddlondeb ac am y gwasanaeth diffuant a gafwyd ddydd yr angladd, sef dydd Gwener, Mawrth 28ain yn Eglwys Sant Padarn ac i ddilyn ym Mynwent Nant Peris. Ein mawr ddiolch hefyd i E.W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr yn ystod yr achlysur.

Y Gymdeithas Undebol Daeth tymor Y Gymdeithas Undebol i ben ar nos Fawrth, Ebrill 8fed, gyda chinio ardderchog yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Diolch i Aneurin a'r staff am luniaeth gwyhch unwaith eto.

Y Gwesteion oedd y Canon a Mrs Idris Thomas, Deiniolen, a chroesawyd y ddau yn gynnes iawn gan y Llywydd, Y Parchedig John Pritchard.

Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan y Canon am y Dr R.H. Mills Roberts, yn enedigol o Benmachno, a ddaeth yn Feddyg i Chwarel Dinorwig yn 1893. Roedd yn Lawfeddyg

medrus iawn ac yn arloesol yn datblygu gwasanaeth arbennig yn yr Ysbyty i'r chwarelwyr a anafwyd mewn damweiniau aml yn y Chwarel. Roedd ei bryder yn fawr am iechyd y chwarelwyr hefyd, cynhyrchodd daflen "A FEW PRACTICAL SUGGESTIONS ABOUT THE HEALTH OF A QUARRYMAN" yn 1894.

Roedd hefyd yn bêl-droediwr gwyhch, a bu'n chwarae yn y gôl i Preston North End ac i Gymru. Diolchwyd i'r Canon Idris Thomas yn fawr iawn am noson ardderchog gan y Parchedig John Pritchard.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Thomas gan yr ysgrifennydd. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu ym mis Gorffennaf i drafod rhaglen y Tymor nesaf, fydd yn cychwyn ym mis Hydref, croeso cynnes i bawb roi ei farn. Diolch i bawb am eu ffyddlondeb yn ystod y tymor a fu.

Diolch Dymuna Michael, Tony, Helen, Kathleen a Norah ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam a Chwaer annwyl, sef y diweddar Joan Wheldon Thomas, 41 Dôl Elidir, Llanberis.

DOSBARTHU'R ECO Mae Wynford Lloyd Hughes wedi rhoi'r gorau i ddosbarthu'r Eco o amgylch Maes Padarn. Bu'n dosbarthu am nifer o flynyddoedd ac y mae ein diolch yn fawr iddo am ei wasanaeth.

Os oes unrhyw un yn fodlon ymgymeryd â'r gwaith pwysig hwn, cysylltwch ag Eifion Roberts 870740.

Nes daw dosbarthwr/wraig newydd ymlaen, gelli'r prynu'r Eco yn un o'n siopau papur newydd lleol.

Codi arian.

Diolch yn fawr i Ifor Green am fod mor ddewr a chael shafio ei ben a'i locsys yn gyhoeddus yn y Glyn Twrog, Llanrug, er mwyn codi arian at Hosbis Plant Tŷ Gobaith. Diolch i bawb yn yr ardal am eu cyfraniad a'r haelioni ar y noson. Cafwyd dros £2,000 at yr achos da hwn. Diolch, Ifor, a gobeithio na chefaist annwyd mawr wedi colli cymaint o flew!

Cymhorthfa.

Bydd **Hefin Williams**, eich Cynghorydd Sir yn cynnal cymhorthfa yn **Ystafell Gymuned, Ysgol Penisarwaun** rhwng 6 a 7 yr hwyr ar y dyddiadau canlynol: **Dydd Llun, Mai 12, 2014** **Dydd Llun, Mehefin 9, 2014**

a Dydd Llun, Gorffennaf 7, 2014 (i'w gadarnhau)

Os oes gennych chi unrhyw fater yr hoffech ei drafod, dewch draw.

Dim angen apwyntiad. Am fwy o wybodaeth ffoniwch **01248 352890**

Ysgol Sul Bosra Wedi mwynhau Stori'r Pasg, cafodd y plant hwyl yn chwilio am wyau o amgylch y capel a derbyniodd pob un wy Pasg mawr am eu ffyddlondeb. Diolchir hefyd am garedigrwydd yr Arolygwr Mr Evie Jones a'i ddwy chwaer am y ddau dun o siocledi. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr bnawn Sul, Mai 11 am 2.00 o'r gloch yn Neuadd Gymuned Penisarwaun. Cymerir y rhan dechreuol gan Ysgol Sul Ebeneser, Deiniolen. Gwneir casgliad tuag at 'Cynllun Efe'. Bydd paned a lluniaeth ysgafn ar y diwedd. Croeso cynnes i bawb.

Cymanfa.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid bnawn Sul, Mehefin 22ain yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, gyda Huw Edward Jones yn arwain. Cymerir y rhan dechreuol gan Ysgol Sul Ebeneser. Erfynnir am gefnogaeth pob aelod.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Nos Fercher, Ebrill 9fed, yn y Neuadd Gymuned cafwyd noson o Hwyl y Pasg gyda gweithgareddau - gwneud cerdyn, addurno wy, addurno het ac addurno Bag Pasg. Diolchir i'r rhai a gefnogodd ac i Mr Hefin Williams, Rhiwlas am ei feirniadaeth deg i bob cystadleuydd. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr oedd Miss Mair Foulkes, Bryn Hyfryd a Rhian Williams, Clwt y bont.

Cynhelir Miri Mai ar nos Fercher, Mai 21ain am 6.30 gyda stondinau, gemau, raffl a phaned. Dewch i gefnogi os gwelwch yn dda.

Eisteddfod Bentref Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, Gorffennaf 11fed am 6.00 yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir Noson Bingo Nos Iau, Mai 15fed am 6.30 yn y Neuadd Gymuned - rhennir testunau'r Eisteddfod ar y noson. Bydd yr ymarferion yn cychwyn wedi gwyliau'r Sulgwyn.

Beirniaid yr Eisteddfod eleni fydd Mari Gwilym - Llefary; Elfed Morris - Cerdd; Arwel Jones - Llên; Janice Jones - Coginio; Bethan Richardson - Celf a Chrefft, a'r Llywydd fydd Cennin Eifion. Edrychir ymlaen am eisteddfod lwyddiannus yn 2014.

Ysgoloriaethau i Awduron.

Mae dau o awduron o'r fro wedi ennill ysgoloriaeth gwerth £5,000 yr un i gwblhau cyfrolau. Daw Euron Griffith yn wreiddiol o Benisarwaun, ac y mae bellach yn byw yng Nghaerdydd. Mae eisoes yn awdur nofelau Cymraeg. Mae'n bwriadu ysgrifennu ar gyfer plant gyda'r ysgoloriaeth hon.

Mae John Fraser Williams o Lanrug wedi derbyn Ysgoloriaeth Awdur Cydnabyddedig, ac yn bwriadu ysgrifennu cyfrol am hanes ei daid a'i nain a fu'n genhadon yn Mizoram yn yr India. Bydd yn gwneud defnydd o ddyddiaduron ei nain ar gyfer y gwaith. Bydd y gyfrol arfaethedig hon o ddiddordeb arbennig i drigolion bro'r "Eco" gan fod gwreiddiau'r teulu'n ddwfn yn y fro. Llongyfarchwn y ddau ar eu llwyddiant.

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwr

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

Cofrestru i bleidleisio – Etholiadau Senedd Ewrop 2014

Mae Cyngor Gwynedd yn annog trigolion i sicrhau eu bod wedi cofrestru i bleidleisio cyn Etholiadau Senedd Ewrop fydd yn cael eu cynnal ar 22 Mai 2014.

Er mwyn pleidleisio yn yr etholiad, lle bydd etholwyr o 28 gwlad yn bwrw pleidlais i ddewis pwy fydd yn eu cynrychioli, mae'n rhaid i'ch enw gael ei gynnwys ar y gofrestr etholiadol.

Mae sawl rheswm pam ei bod yn bwysig i'ch manylion gael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol:

- gall etholiadau gael eu galw ar fyr rybudd, os nad ydych wedi cofrestru ni fyddwch yn gallu pleidleisio
- mae'n ofyniad cyfreithiol i gofrestru, gall methu gwneud hyn arwain at ddirwy neu hyd yn oed garchar
- drwy gofrestru rydych yn sicrhau fod manylion y Cyngor yn gywir
- cynnal eich statws credyd; mae banciau ac asiantaethau credyd yn defnyddio'r gofrestr etholwyr i gadarnhau lle mae person yn byw.

Meddai Dilys Phillips, Swyddog Cofrestru Etholiadol Cyngor Gwynedd:

“Mae cofrestru i bleidleisio yn angenrheidiol ac yn sicrhau eich bod yn gallu lleisio'ch barn am faterion y dydd. Ni allai sicrhau eich bod yn gallu pleidleisio yn 2014 fod yn haws.”

I sicrhau eich bod yn cael y bleidleisio, bydd rhaid i chi gofrestru cyn y dyddiad cau ar 6 Mai. Mae cofrestru'n syml, ewch i www.aboutmyvote.co.uk i argraffu ffurflen gofrestru gyfredol.

Neu, i wneud cais am y ffurflenni priodol neu am fwy o wybodaeth am:

- sut i gofrestru
- sut i bleidleisio
- sut i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy

ewch i www.gwynedd.gov.uk/etholiadau neu ffoniwch 01766 771000.

TAITH CÔR MEIBION DINAS BANGOR I HAWORTH, SWYDD EFROG

Nid yw'r cyfle i agor Pafiliwn Band yn swyddogol yn dod i ran Côr Meibion yn aml, ond dyna oedd braint Côr Meibion Dinas Bangor yn ystod eu taith diweddar i Swydd Efrog. Teithiodd llond bws o aelodau'r côr a'u cyfeillion ar fore Gwener, 4ydd Ebrill, i ddinas Efrog a threuliodd y prynhawn hyfryd yn ymweld â rhai o atyniadau'r ddinas hardd hon. Aeth rhai o'r criw i siopa, eraill i grwydro strydoedd y ddinas ac i ymweld â'r Gadeirlan fendigedig, ond yr atyniad mwyaf poblogaidd oedd cael synnu a rhyfeddu at y trenau amrywiol a hanesyddol a gedwir yn yr Amgueddfa Trenau enwog. Aed ymlaen i dreulio'r noson mewn gwesty moethus yng nghanol dinas Leeds ac ar y bore Sadwrn cafwyd cyfle i weld marchnadoedd a'r adeiladau hyfryd sydd i'w gweld yn y ddinas.

Mae un aelod ffyddlon o'r côr yn hanu o Swydd Efrog ac yn gyn-Brifathro mewn ysgol gynradd fawr yn y Sir. Daeth David Farrar i fyw i Fangor, dysgu ein hiaith ac ymuno a'r côr. Roedd ganddo gysylltiadau gydag Eglwys hanesyddol Haworth - eglwys sy'n enwog oherwydd bod y chwiorydd Brontë, yr awduron enwog Charlotte, Ann ac Emily - wedi byw yn y rheithordy ac sydd bellach yn amgueddfa i goffau y teulu arbennig hwn. Mae'r teulu oll, heblaw Ann, wedi eu claddu o dan yr Eglwys, lle mae cofeb iddynt.

Felly, teithwyd o Leeds i bentref hynafol Haworth brynhawn Sadwrn braf i gynnal cyngerdd yn yr Eglwys er mwyn codi arian tuag at eu cronfa atgyweirio.

Clywodd un o swyddogion y band lleol am ein hymweliad a chytunwyd â'i gais i'r côr agor y Pafiliwn Band newydd sydd wedi ei leoli yn y parc deniadol a geir yn Haworth. Daeth torf barchus iawn i wrando arnom yn canu yn yr awyr agored gyda'r gwynt yn ogystal â'r piano drydanol yn cyfeilio inni!

Gyda'r nos, cynhaliwyd cyngerdd yn yr eglwys, gyda chynulleidfarn niferus a gwerthfawrogl yn bresennol. Yr unawdwyr oedd Norman Evans, Aneuryn Jones, Dafydd a David Hughes. Cyfeiliwyd gan yr ardderchog Gwilym Lewis gyda Lowri Roberts Williams yn arwain gyda'i brwdfrydedd arferol. Diolch i'n cadeirydd, Dafydd Ellis, am arwain y noson ac am drefnu'r daith arbennig hon ar y cyd gyda David Farrar. Diolch hefyd i gwmni bwsiau Arvonnia am eu trefniadau ardderchog.

Sgwarnaw.

Defnyddiwch y llythrennau (unwaith yn unig) i ffurfio geiriau pedair llythyren neu fwy. Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. O ddefnyddio'r holl lythrennau gallwch ffurfio enw lle yng Nghymru. Rhaid defnyddio'r llythyren yn y sgwar canol ym mhob gair.

Y mis hwn:

5 gair = da;

10 gair = da iawn;

15 gair neu fwy – ardderchog.

Ateb y mis diwethaf: Dolgadfan

G	G	Th
A	Ll	R
E	N	I

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwy



Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



URDD GOBAITH CYMRU 2014 YMRYSION SIARAD CYHOEDDUS

Ar ddydd Mercher, y pedwerydd ar bymtheg o Fawrth cynhaliwyd un rownd o gystadleuaeth siarad cyhoeddus yr Urdd i ysgolion uwchradd yn llyfrgell Ysgol Brynrefail. Y beirniad eleni yw Dilwyn Morgan o'r Bala gan mai yno y cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Meirionnydd ym mis Mai.

Y pedwar yn y tîm siarad cyhoeddus yn cynrychioli'r ysgol eleni yw Erin Ynyr, Beth Gaffey ac Elin Tomos, y tair ohonynt ym mlwyddyn 13 ac wedi cystadlu yn y gystadleuaeth y llynedd ac felly'n hen lawia, yn ogystal â Sion Talfryn o flwyddyn 12 sy'n newydd i'r tîm eleni. Mae'r pedwar wedi bod wrthi'n ymarfer trafod nifer fawr o bynciau llosg amrywiol ar amser cinio yn stafell Mrs Gwenno Bebb ers wythnosau bellach. O ganlyniad gallant drin pynciau o bob math cystal ag unrhyw wleidydd!

Yn ei rôl fel cadeirydd y tîm cafodd Erin weld chwe thestun ugain munud cyn dechrau'r gystadleuaeth er mwyn paratoi pwyntiau a chwestiynau i brocio'r panel. Dewisodd hi dri phwnc ar gyfer y drafodaeth sef:

- mae dysgu trwy ddefnyddio cyfrifiadur a thechnolegyn llawer gwell nag eistedd yn gwrando ar athro mewn dosbarth
- mae cael tabledi a moddion am ddim yng Nghymru yn fuddsoddiad da gan Lywodraeth Cymru
- byw yn y wlad neu fyw yn y dref?

O flaen cynulleidfao nifer o ddisgyblion y chweched dosbarth cafwyd trafodaeth aeddfed a difyr gan y panel. Roeddent yn mynegi barn yn glir ac yn groyw a dywedodd y beirniad ei fod wedi ei synnu bod ganddynt y fath wybodaeth ar flaenau eu bysedd. Cofiwch nad yw'r panelwyr yn cael gwybod beth yw'r pynciau trafod cyn dechrau'r gystadleuaeth felly mae mynd ati i gynnal trafodaeth o ugain munud yn dipyn o gamp!

Bydd y beirniad yn awr yn teithio i nifer o ysgolion uwchradd eraill ar hyd a lled Cymru cyn penderfynu pa dri thîm fydd yn cystadlu yn y rownd derfynol yn y Bala ym mis Mai. O gofio mai tîm Ysgol Brynrefail enillodd y gystadleuaeth ddwy flynedd yn ôl yng Nglynllifon rydym yn gobeithio'n arw am lwyddiant eto. Pob hwyl i Erin, Elin, Beth a Sion a diolch iddynt am eu parodrwydd i ymarfer a chystadlu yn enw'r ysgol.



Ymadael ac Eurwen

Yn ymadael wedi naw mlynedd o wasanaeth yn Ysgol Brynrefail yn gweinyddu dros gynllunio, paratoi a choginio llwythi o wahanol brydau blasus oedd Prif Gogyddes yr ysgol, Mrs Eurwen Williams.

Carwn ddiolch iddi ar ran yr holl ddisgyblion a staff sydd wedi elwa ar ei gwaith trylwyr dros y blyneddau.



Ffarwelio â Valmai

Bu achlysur o fri ar brynhawn dydd Gwener, 28ain Mawrth. Fe ddaeth ffrindiau hen a newydd ynghyd i dalu teyrnged i Valmai Owen am iddi gyflawni 40 mlynedd o wasanaeth yn ffreutur Ysgol Brynrefail.

A dyma i chi ffaith syfrdanol. Ar hyd y 40 mlynedd nid yw Valmai wedi colli'r un diwrnod o waith.

Dydi diolch ddim yn dod yn agos!

Hogan Brynrefs – da' de

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”

PLÂT AMDANI



Ar ôl colli i Ysgol Glan y Môr yng nghymal cyntaf Cwpan Eryri roedd ail gyfle i'r tîm Dan 15 yng nghystadlwyaeth y plât. Ar ôl dwy daith fuddugol oddi cartref yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch ac Ysgol Creuddyn, Llandudno lle ddaru'r bechgyn sgorio dros 70 o bwyntiau heb ildio dim, braf oedd cael croesawu Coleg St Davids, Llandudno i Lanrug ar gyfer gêm gynderfynol Plât Eryri.

Dechrau digon blêr gafodd y bechgyn gyda'r dwylo ddim cweit wedi cynhesu, ond buan y daru hynna newid gyda Gwion Lowe yn croesi am y cais agoriadol, dyna oedd y sbarc oedd ei angen ar y bechgyn a doedd dim amheuaeth pwy oedd am ennill y gêm hon. Sicrhawyd y fuddugoliaeth o fewn 10 munud o'r ail hanner diolch i Ancel Davison, y blaenasgellwr yn croesi am dri chais, ac yn llawn haeddu'r teitl o Seren y Gêm ac yn onest efallai Seren y Tymor i'r tîm Dan 15 a 16.

Felly ar ôl buddugoliaeth o 45-12 ymlaen i ffeinal y Plât yng Nghaernarfon mae'r hogiau!

Ysgoloriaethau



Mae Ysgol Brynrefail yn falch iawn o lwyddiant tair o ddisgyblion y chweched dosbarth. Enillodd y tair ysgoloriaeth o Brifysgol Aberystwyth i gefnogi eu hastudiaethau pellach yn eu meysydd astudio. Bydd Isobel Larter, chwith, yn dilyn astudiaethau mewn Saesneg Creadigol. Elin Thomas, canol, fydd yn ehangu ei hastudiaethau mewn Hanes a Chymraeg. Bydd Claire Donnelly, y dde, yn dilyn astudiaethau pellach mewn Cemeg a Bioleg.

Mae staff a disgyblion Ysgol Brynrefail yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn eu dyfodol ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Mae Ysgol Brynrefail yn falch iawn o lwyddiant dwy o ddisgyblion y chweched dosbarth. Enillodd y ddwy ysgoloriaeth o Brifysgol Bangor i gefnogi eu hastudiaethau pellach yn eu meysydd astudio. Bydd Katie Davies, chwith, yn dilyn astudiaethau mewn Gwyddoniaeth Meddygol. Bydd Kimberley Jones, y dde, yn dilyn astudiaethau pellach mewn Athroniaeth a Crefydd.

Mae staff a disgyblion Ysgol Brynrefail yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn eu dyfodol ym Mhrifysgol Aberystwyth.



'BUDDIES'

Gweithdy gyda Blwyddyn 8 a Blwyddyn 12

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae Blwyddyn 12 wedi bod yn derbyn hyfforddiant gan Bethan Jones o Hafan Cymru ar gam-drin a bwlio. Cynhaliodd Bethan gyfres o weithdai yn cyflwyno'r testun sensitif hwn iddynt a'r nod oedd eu bod yn gorfod t rosglwyddo'r wybodaeth i ddisgyblion blwyddyn 8 mewn gweithdy. Cafodd aelodau'r 6ed arweiniad trylwyr iawn gan Bethan am wahanol fathau o gam-drin, am fwlio ac am berthynas iach er mwyn datblygu eu dealltwriaeth hwy o'r pwnc. Hefyd, cawsant wybod sut i ddelio gyda gwahanol sefyllfaoedd o gam-drin a beth sy'n dderbyniol neu beidio o fewn perthynas.

Yna, yn ystod y dydd ar 24.3.14 roedd y disgyblion yn gyfrifol am arwain sesiynau ymarferol byr gyda blwyddyn 8 er mwyn cyflwyno'r testun o gam-drin a bwlio iddynt hwythau. Cawsant gyfle i actio, i chwarae gemau, i wrando ar gyflwyniadau ffurfiol a sgetsys doniol er mwyn trafod y testun. Gweithiodd blwyddyn 12 yn galed iawn gan ymateb i'r her yma'n aeddfed a chyfrifol. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan ddisgyblion blwyddyn 8 gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn nodi eu bod wedi dysgu llawer am y testun.

Crynodeb o gofnodion y 1af o Ebrill 2014.

Gweddi Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll. Jones. Cynllunio Cyfeiriodd y clerc at yr adroddiad i Wynedd lle cyfeiriwyd at gais a wrthodwyd gan Gyngor Sir Caernarfon i deulu lleol addasu adeilad allanol yn gartref oherwydd lleithder yn eu tŷ yn Neiniolen. Mae cais cyfredol i addasu'r un adeilad yn uned wyliau wedi ei ganiatau i'r perchennog presennol – llythyr i Wynedd i ofyn pa amgylchiadau sy'n wahanol ers y gwrthwynebiad gwreiddiol.

Coed Rhydu Ail gyflwyniad o gais a wrthodwyd ar gyfer cadw a newid defnydd tir ar gyfer gemau paent ac estyniadau i faes parcio, ynghyd â chreu trac mynediad a base camp newydd, gosod cynwysyddion ac adeiladau ar gyfer defnydd cysylltiol â'r Base Camp a gosod system trin carthffosiaeth. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol (sy'n cynnwys y sylwadau a wnaed yn 2013) sef:

- Achoswyd trafferthion difrifol i'r cymdogion yn y gorffennol gan geir cwsmeriaid Coed Rhydu.
- Y cwsmeriaid yn amharu ar drafndiaeth hanfodol y ffermydd cyfagos ar hyd ffordd gul.
- Tybed a fydd y lle parcio estynedig y ddigonol?
- Bydd y fynediad allan o'r safle ar hyd Lôn Crawiau i'r ffordd fawr lle digwyddodd sawl damwain ddifrifol, rhai yn angheuol.
- Goleuadau llachar yno – yng nghefn gwlad
- Sŵn yn amharu ar gymdogion, mae'r sŵn i'w glywed yn ardaloedd cyfagos fel ym mhentref Penis'rwaun
- Bydd defaid yn wyna a gwartheg y lloia ar y caeau cyfagos ac mae'n holl bwysig na amherir arnynt gan olau llachar, sŵn nifer o geir a phobl yn gweiddi.
- Nid oes amseroedd penodol i'r gweithgareddau yno
- Dim llecynau pasio ar hyd y ffordd gul at y lle.
- Bydd yn sicr o amharu ar fywyd gwyllt yr ardal.
- **Nid yw'r lleoliad yma, yng nghefn gwlad, yn addas ar gyfer y fath weithgareddau.**

Ceisiadau eraill a dderbyniwyd:

Codi estyniad un llawr – 4 Pant Sardis Dinorwig.

Codi estyniad llawr cyntaf to fflat uwchben y gegin – 12 Caradog Place, Deiniolen

Materion o'r cofnodion

Tre Gof, Bethel. Talwyd cyfraniad y Cyngor, sef £700, i Gyngor Gwynedd gan bod y llecyn parcio wedi ei gwblhau.

Blwch postio Tan Gaer Llythyr y Post Brenhinol yn cadarnhau nad oes bwriad i'w adfer. Dywedodd Phyllis Ellis ei bod yn amau bod perchennog y cae, lle 'roedd y blwch gwreiddiol, wedi gwrthod y gosodiad. Addawodd wneud ymholiadau.

Materion priffyrdd Atebion Gwynedd:

- Wyneb y ffordd ger Bryn Sardis, Dinorwig – gwnaed asesiad a rhoddwyd y gwaith atgyweirio ar raglen waith yr adran.
- Wal, Brynrefail – nid yw'n berygl i ddefnyddwyr ffordd felly nid oes modd gorfodi'r perchennog i'w hatgyweirio ond gofynnir, yn garedig, iddo ymgymryd â'r gwaith gan ei bod yn bryder i'r gymuned.
- Coed ger Racca a Rhiw Goch – asesiad y sefyllfa maes o law.
- Ffosydd Cefn y Waen a Groeslon Uchaf – trefnwyd eu hagor, dylai'r gwaith fod wedi ei gwblhau bellach.
- Wyneb anti skid Tŷ Mawr – canlyniadau'r profion gwrth-lithro yn cadarnhau ei fod o fewn y canllawiau. Ail godwyd y wal.
- Y ffordd at Gelli Gyffwrdd – asesiad i'w drefnu ond nid oes amserlen ar gyfer y gwaith atgyweirio.
- Parcio ger Groeslon Tŷ Mawr a Llandygai – danfonwyd i sylw Mr Dafydd W. Williams, y Prif Beiriannydd i ateb yn uniongyrchol.

Ychwanegodd Jane Pierce bod twll yng nghanol y ffordd lle mae'r anti skid ger Tŷ Mawr – llythyr i Wynedd.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dywedwyd bod cân Actol Deiniolen drwodd o'r Sir. Arferiad y Cyngor yw cyfrannu £100 tuag at y costau. Gan mai ail oedd Parti Unsain Penis'rwaun nid oes sicrwydd y cânt fynd drwodd – Phyllis Ellis i wneud ymholiadau.

Penderfynwyd cyfrannu £100 at unrhyw barti neu gôr a dderbyniwyd i'r genedlaethol. Aelodau i hysbysu'r clerc.

Gwaith dŵr – Blaen Cae Uchaf i Benisa'rwaun, dywedodd Hefin Williams bod mwy o waith nag a sylweddolwyd yn y lle cyntaf, dylai gael ei orffen o fewn ychydig ddyddiau.

Gohebiaethau a materion eraill

Ns&I Llongyfarchodd y Cadeirydd Hefin Williams ar ei lwyddiant yn gorfodi Deddfyr Iaith ar y Cwmni – hynny yn rhybudd i gwmnïau eraill fod yn wyliaidwrs o ddefnydd yr Iaith.

Sylwadau'r aelodau

Carolyn Roberts – angen cyfyngder 20mya ym mhentref Brynrefail, yn enwedig yn ystod amserau teithio plant ysgol – cais eto i Wynedd. Hefin Williams – gofyn i Wynedd eto am drafndiaeth “un ffordd” trwy Frynrefail

Idris Thomas – mae'r gwasanaeth bws 09.50 o Gaernarfon yn troi yn ôl o Ddeiniolen – gofyn i'r gwasanaeth gynnig “request” os bydd rhywun o Ddinorwig arno – cais i Bwsiau Padarn ac i Gyngor Gwynedd.

Geraint Elis – arwydd “Brynrefail School” ar y bwsiau – dweud wrth Bwsiau Padarn nad oes y fath sefydliad

Hefin Williams – ysbwriel yn cael ei adael ger biniau ail gylchu Rhiwlas. Trafodwyd hyn gan ystyried a oes eu hangen mwyach gan bod gwasanaeth ail-gylchu ar gyfer bron pob cartref. Penderfynwyd mynegi pryder i Gyngor Gwynedd.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Disgyblion Ysgol Brynrefail yn
clirio'r cae chware



Mewn cyfarfod ar y 18fed o Fawrth 2014:

Dywedodd y Clerc ei bod wedi archebu goleuadau Nadolig ar gyfer coeden Cwm y Glo a chadarnhaodd y Cyng. Brian Jones y byddai ef yn trefnu cael y goeden yn ôl yr arfer.

Adroddwyd fod cwynion wedi'i hanfon i Gyngor Gwynedd am broblem baw ci yn yr ardal. Awgrymwyd fod angen i bawb ffonio a chwyno yn unigol er mwyn asesu maint y broblem a chael glanhau rheolaidd o faw ci. Y rhif i ffonio yw rhif Galw Gwynedd sef 01766 771000.

Cafwyd gadarnhad fod biniau newydd ar gael ar gyfer cae Glanmoelyn ac y byddent yn cael eu gosod maes o law.

Dywedwyd bod angen gwneud cais am arwydd newydd i bentref Cwm y Glo. Nid oedd arwyddion newydd ar gyfer rhai o stadau Llanrug wedi eu derbyn hyd yma.

Dywedwyd bod cwmni Celtic Souza wedi clirio'r ffens flêr a pheryglus o'r cae ac wedi ail osod y fainc dros dro. Penderfynwyd i ofyn wrth Cymdeithas Tai Gogledd Cymru i archwilio a gofyn i Gyngor Gwynedd ddod i asesu diogelwch cyffredinol yr ardal, yn enwedig y ffyrdd cyfagos, yn dilyn yr adeiladu diweddar.

Penderfynwyd ymchwilio a oes coed yn Nhyddyn Elan wedi eu gwarchod rhag eu torri gan bod gordyfiant yma. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd wneud asesiad risg ar y safle hwn hefyd gan bod y wal sydd rhwng Tyddyn Elan a Ffordd Crawia wedi gwanio.

Penderfynwyd ceisio darganfod pryd y bydd talebau rhyfel Cwm y Glo yn cael eu symud i Eglwys Llanrug.

Cytunodd y Cyng Brian Jones y byddai yn trefnu taith gerdded ar hyd llwybrau cyhoeddus Cwm y Glo yn ystod mis Mehefin a'r Cyng Hefin Jones i wneud taith Ardal Llanrug yn ystod mis Mai.

Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd a fyddai'r gang gymunedol yn



gallu helpu i glirio'r llwybr ger Ogwen.

Dywedwyd fod sawl person wedi cwyno am dyllau yn y ffyrdd. Roedd y Cyngorydd Charles Jones wedi gwneud ymholiadau a darganfod bod trwsio Ffordd yr Orsaf ar raglen waith 2014/15. Adroddwyd fod Lôn yr Eglwys yn Llanrug hefyd yn ddrwg iawn a chytunwyd i wneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd am y ffordd yma.

Derbyniwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod y Cyngor am dderbyn grant o £4,000 tuag at drampolin yng nghae chwarae Nant y Glyn. Ceisir cael grantiau eraill i ariannu'r gweddill o'r gost.

Awgrymwyd cael cyfarfod safle ar gae Chwarae Pwll Moelyn gyda chwmni Celtic Souza i benderfynu beth i'w wneud gyda'r llwybrau, os y dylid torri'r coed ac er mwyn symud ymlaen gyda'r llechen. Trefnwyd i gael cyfarfod Cyngorwyr yn unig gyntaf.

Adroddwyd fod llawer iawn o faw ci ar y ffordd rhwng y Becws a Ffordd Minffordd, Cwm y Glo. Penderfynwyd gofyn i'r Warden Cŵn a fyddai yn dod i gyfarfod o'r Cyngor ac hefyd i ofyn am fwy o finiau ac arwyddion eto. Penderfynwyd y dylid gofyn iddo am syniadau ar sut i gael y gymuned gyfan i helpu gyda'r broblem.

Adroddwyd fod disgyblion o Ysgol Brynrefail yn mynd i lanhau cae chwarae Nant y Glyn. Dywedwyd y byddai'n rhaid i'r disgyblion gael benthgyl teclynnau codi sbwriel y Cyngor ac y byddai yn rhaid archebu mwy ohonynt.

Doedd dim gwrthwynebiad i gais i newid dyluniad tai newydd ar blotiau 46 a 47 Nant y Glyn, Llanrug.

Cyflwynodd y Clerc y gyllideb ddrafft ar gyfer 2014/15 yn dilyn man newidiadau ar ôl sylwadau a wnaethpwyd yng nghyfarfod mis Chwefror. Byddai'r gyllideb yn cael ei chymeradwyo yng nghyfarfod blynyddol mis Mai.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION MAWRTH 2014

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fawrth yr 11eg o Fawrth, 2014 am 7 yr hwyr.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis (Cadeirydd), Eurig Druce, Gwilym Evans. Olwen Gwilym, Iwan Harding, Derek Jones, Helen Sharp.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Barry Davies, Trystan Thomas.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 18fed o Chwefror, 2014 fel rhai cywir, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Biniau'r Fynwent. Roedd y Clerc wedi cael caead ar gyfer y bin oedd yn Y Fynwent, ond dim sôn am yr ail fin hyd yma.

2. Tirlunio Adwy Ffordd Haearn: Cafwyd ar ddeall nad oedd y pileri llechi a gynigwyd yn gynharach ar gael. Felly bydd rhaid chwilio am rai eraill a gofynnwyd i bawb holi i weld a oedd rhai ar gael. Roedd y Clerc eisoes wedi cysylltu ac un masnachwr mewn deunyddiau ail-law, ond heb gael llwyddiant.

3. Y Fynwent: Rhoddwyd gwybod i'r teuluoedd, i gyd ond un, oedd a cerrig coffa yn rhydd, neu wedi dymchwel yn y storm. Penderfynwyd holi, o ran diddordeb, i weld beth oedd y gost o ail osod carreg fedd.

4. Arwyddion: Adroddwyd y bu cysylltiad â CG ac Awdurdod y Parc ynglŷn â'r arwyddion a chwythwyd i lawr gan y storm. Gofynnwyd yn garedig am ail leoli yr un o flaen Nant Ffynnon ger mynedfa'r Maes Parcio.

4. CG – Lôn Fain (Lôn y Fron): Adroddwyd fod y gwaith o adnewyddu wyneb y ffordd, o'r diwedd wedi ei gwblhau, a hynny yn gynt na'r addewid olaf.

5. Hysbysebu: Adroddwyd fod nifer o siopau'n dal i osod byrddau hysbysebu ar balmentydd, gan achosi rhwystr

GOHEBIAETH:

1. APCE: Noson Cyngorau Cymuned: Y cyfarfod blynyddol rhwng cynrychiolwyr y Cyngorau Cymuned a swyddogion Awdurdod y Parc. Nos Lun 19 Mai, 2014 yn y Ganolfan Gymunedol, Capel Curig. Olwen Gwilym i gynrychioli'r Cyngor.

2. Hospis Tŷr Eos: Gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol yr Hosbis.

3. Cyngor Cymuned Waunfawr - Gwasanaethau Bws S4: Llythyr yn mynegi pryder fod un o'r gwasanaethau bws wedi ei ddileu, ac yn gofyn am gefnogaeth i'w gael yn ôl. Nodwyd y gallai hyn gael effaith ar gymuned Llanberis hefyd. Cytunwyd i anfon at CG.

CYNLLUNIO:

APCE: NP3/15/180C – gosod twnnel polythen ffrâm ddur, Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa, Llanberis – dim gwrthwynebiad.

Y LLWYBRAU a'r FYNWENT:

Y Fynwent: Penderfynwyd cyflogi Robert Owen i dreulio awr yn twtio'r Fynwent ar ôl y gwyntoedd mawr.

MATERION ARIANNOL:

a) Yn y Banc ar yr 28ain o Chwefror 2014 -

Cyfrif Cyfredol: £12,500.75; Cyfrif Cadw: £5,333.22

Gwariant y mis = £2478.10

Derbyniadau y mis = £0.26

Cyflwynwyd mantolen gwariant a derbyniadau'r flwyddyn, ac amcangyfrifwyd y byddai tua £9,000 yn weddill yn y Cyfrif Cyfredol ynghyd â'r £5,300 sydd yn y Cyfrif Cadw.

Cylch Ti a Fi.



Ddiwedd Tymor y Pasg roedd Enyd Lloyd Jones yn gorffen fel arweinydd y Cylch ar ôl sawl blwyddyn gyda'r gwaith. Cyflwynwyd anrheg a thusw o flodau iddi gan blant y Cylch yn

gydnabyddiaeth am ei gwaith.

Bydd y Cylch yn parhau i gyfarfod fel arfer yn Festri Capel y Rhos ar brynhawn Mawrth a bore Gwener yn ystod Tymor yr Haf.

Codi arian i Tŷ Gobaith.



Ddiwedd mis Mawrth cynhaliwyd noson lwyddiannus yn Y Glyntwrog, Llanrug i gasglu arian tuag at elusen Tŷ Gobaith. Roedd y gwallt a'r farf a fu'n cadw Ifor Green o Benisarwaun yn gynnes drwy'r gaeafyn cael eu heillio, a'i adael i wynebu gwanwyn braidd yn rhynllyd! Ond roedd y cyfan yn werth chweil, oherwydd drwy gael ei noddi i ffarwelio â'r tyfiant sylweddol, codwyd bron i ddwy fil a hanner o bunnau. Roedd gweithgareddau eraill ar y noson hefyd, megis karioci, arwerthiant a raffl, a'r cyfan yn cyfrannu tuag at yr elusen.

Meddai Ifor: "Hoffwn ddiolch i Dave am drefnu'r karioci, i Bobbi am dorri'r gwallt a'r farf mor ofalus, i Pat a Julie am drefnu'r arwerthiant a'r raffl, ond yn fwyaf arbennig i'r holl noddwyr am gyfrannu mor hael. Dymuniadau gorau hefyd i Ruth, Bryn ac Elis bach."

Diolch i Gwynant Pierce, Llanrug am y lluniau. Mae mwy o luniau o weithgareddau'r noson i'w gweld ar safle facebook Glyntwrog.

Ysgol Gynradd

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a oedd yn aelodau o'r tîm nofio a fu'n cystadlu yng Ngala Nofio Canolfan Hamdden Arfon. Daeth y tîm yn fuddugol yn y gala. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydders tua 15 mlynedd. Diolch i Miss Catrin Jones ac i Mr Wyn Griffith am eu hyfforddi.

Cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 wledd pan ddaeth aelod o gwmni 'Mewn Cymeriad' draw i'r ysgol i berfformio sioe 'Buddug: Brenhines Y Brwydro'. Roedd y disgyblion wedi astudio hanes Buddug fel rhan o'u gwaith thema blaenorol ar y Rhufeiniaid a daeth y sioe yma â'r stori yn fyw iawn iddynt.

Thema bresennol blwyddyn 3 a 4 ydi 'Cynllunwyr Dillad Chwaraeon'. Mae'r plant wedi bod yn astudio logos chwaraeon fel rhan o'u gwaith. Daeth Mr Stephen Edwards o 'Cwmni Cread' draw i'r ysgol i sgwrsio gyda'r disgyblion am y modd y mae o yn mynd ati i gynllunio logos amrywiol. Diolch yn fawr iawn iddo am ei amser.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Nanw Llwyd ar ddod yn gyntaf yn yr unawd chwythbrennau dan 12 oed ac i Tomi Llywelyn ar ddod yn gyntaf gyda'r unawd alaw werin dan 12 oed. Bydd y ddau yn mynd ymlaen i'r Bala i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Mai. Pob dymuniad da iddynt yno. Llongyfarchiadau hefyd i aelodau tîm dawnsgwerin blwyddyn 4 ac iau ac i dîm dawnsgwerin blwyddyn 5 a 6 am ddod yn ail yn eu cystadlaethau hwy yn yr Eisteddfod Sir.

Daeth Dyfrig Evans a Catrin Mara draw i'r ysgol i berfformio sioe 'Hei Hogia Bach' i ddisgyblion blwyddyn 4, 5 a 6. Roedd y sioe yn cael ei hyrwyddo gan y llyfrgell a mwynhaodd y plant y sioe yn fawr iawn.

Aeth rhai o enethod a bechgyn blwyddyn 5 a 6 draw i Borthmadog i gystadlu yn Nhwrnamaint Pêl-droed yr Urdd. Llongyfarchiadau i dîm y bechgyn am gyrraedd y rownd gyn-derfynol yn eu twrnamaint hwy. Chwaraeodd y genod yn

dda hefyd a diolch iddynt am eu hymdrechion yno. Diolch yn fawr iawn i bawb a roddodd o'u hamser i hyfforddi y timau – Mr Wyn Griffith, Mrs Rhian Jones, Miss Emma Phillips, Mr Dafydd Gibbard, Mr Dyfed Whiteside Thomas a Mrs Rhian Whiteside Thomas.

Aeth tîm o fechgyn blwyddyn 5 a 6 i gystadlu yn Nhwrnamaint Rygbi Clive James. Llongyfarchiadau i aelodau'r tîm am ennill cystadleuaeth Arfon. Diolch i Mr Andrew Williams am eu hyfforddi.

Pêl-droed Fe hoffai Clwb Pêl-droed Llanrug ddiolch o galon i'r llu o gefnogwyr a aeth i Rhyl i'w cefnogi yn Rownd Derfynol Tlws Cymru. Hefyd diolch i bawb wnaeth yrru negeseuon yn dymuno lwc i'r Clwb cyn y gêm ac yna llongyfarchiadau yn dilyn y fuddugoliaeth. Diolch i chi gyd.

Diolchiadau Dymuna Valmai ddiolch i'w theulu, cymdogion, ffrindiau a chydweithwyr am y cardiau, arian, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ei hymddeoliad o'r gegin yn Ysgol Brynrefail. Diolch yn fawr i Eurwen a'r genod am y parti.

Fe ddymuna Gordon Davies, Sycharth, Bryn Moelyn, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion a fu yn gefn mawr iddynt tra roedd Gordon yn cael llawdriniaeth yn Uned Calon, Ysbyty Broad Green, Lerpwl. Mae eu diolch yn fawr i staff Ysbyty Gwynedd a Lerpwl am eu gofal ac i nyrsys Calon Lân hefyd.

Dymuna trigolion Hafan Elan ddiolch yn fawr iawn i bobl ifanc y Clwb Ieuenctid am anfon hamper bwyd i bob un o'r cartrefi. Fe'i gwerthfawrogyd yn arw iawn a braf yw gweld ieuenctid yn meddwl am bobl hyn y pentref. Diolch yn gawr iawn.

Profedigaeth Cydymdeimlwn â Dianne Powell, Bryn Moelyn yn ei phrofedigaeth yn colli ei thad oedd wedi dod i ymgyrtrefu i Lanrug yn ddiweddar. Cofiw ati, Alun, Rhian, Bethan, Nerys a'r teulu.

Yr un pryd, cydymdeimlwn yn arw â Dilwyn a Nerys Rogers, Stad Minffordd, yn eu profedigaeth hwy o golli brawd yng nghyfraith yn 57 mlwydd oed.

Merched y Wawr

Merched y Wawr Nos Fawrth, Ebrill 8fed estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Nan Humphreys. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad. Brafiawn oedd cael croesawu Mair Huws yn ôl atom wedi triniaeth i'w chlun yn Ysbyty Gwynedd. Da deall fod nifer dda o aelodau am gefnogi Gŵyl y Pum Rhanbarth ar Sadwrn, Mai 10fed yn Ysgol Friars, Bangor. Mae'r rhaglen yn un amrywiol a difyr dros ben gyda Gethin Griffiths a Gwilym Bowen Rhys o Fethel, Mererid Hopwood, Y Barnwr Nic Parry, Gwenan Gibbard a Myrddin ap Dafydd a Hywel Gwynfryn sydd, fel ninnau, yn 'gwrthod mynd yn hen'!

Mis Mehefin byddwn yn mynd ar ein Taith Flynyddol – y mae taflenni 'Bwydlen' wedi ei dosbarthu. A fuasech garedded â'i llenwi a dod â'r arian i'r Cyfarfod Blynyddol.

Estynnwyd croeso cynnes i aelod o'r mudiad GISDA – mudiad sy'n darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc, mudiad a gychwynnwyd Hydref 1985 gan ŵr ifanc fu'n agos ar ein calon fel cangen, sef Gwyndaf Jones. Un o grŵp o wirfoddolwyr oedd Gwyndaf a oedd yn poeni am y nifer o bobl ifanc oedd yn ddigartref yn yr ardal hon – mae'r broblem yr un mor berthnasol heddiw. Bu

Melanie yn olrhain cefndir y mudiad inni a Harri yn adrodd ei hanes a'i werthfawrogiad o wasanaeth Gisda iddo ef. Mae'r mudiad yn cefnogi pobl ifanc i fyw bywyd annibynnol a chyflawn. Mae Gisda yn eu cefnogi mewn hosteli, tai a fflatiau trwy Wynedd gyfan. Cynigir cynllun addysgu amgen yn fewnol. Cynigir cefnogaeth a chyngor ar dai, addysg, hyfforddiant gwaith, cyllido, iechyd a sgiliau byw i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed.

Darperir gwasanaethau – cynghorydd personol, gwasanaeth cwnsela cymwysedig a phroffesiynol, gwasanaeth cymodi, menter gymdeithasol, gweithwyr allweddol, gweithwyr prosiect, pecynnau cefnogi a mentoriaid cyfoed.

Difyr oedd gwrandio ar Harri yn adrodd pa mor ddyledus yw ef heddiw o gael ail gyfle mewn bywyd drwy'r Mudiad Gisda – mudiad sydd 'Yma i Bobl Ifanc'. Diolchwyr i Melanie, Harri a Catrin gan Nan a Mair am noson hynod o ddifyr ac am eu parodrwydd i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd i'n pobl ifanc yma yng Ngwynedd. Diolchir i Meirwen a Bethanne am y baned. Cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol nos Fawrth, Mai 12fed, gyda Chlonc a Phaned.

Cyfarchion Arbennig Pen-blwydd Hapus arbennig iawn i ti, Bedwyr, Gwên y Wawr, 21 Glanffynnon, ar Fai 9fed. Dymunir llawer o gariad ac iechyd i ti oddi wrth Lisa a'th ffrind gorau, Arthur. Pob lwc a hapusrwydd i ti gan Mam a Dad, dy chwaer Eurgain ac Ioan a Cian, dy frawd Osian a Sara, Gwydion Rhys a Leah Rhiannon a'r teulu i gyd.

Plaid Cymru. Enillwyr Clwb Cant Mis Ebrill:

Carys Jones; 2. Frank Green.

Y Sefydliad Coffa. Enillwyr Clwb Cant Mawrth:

1. Elen Jones, 4 Hafan Elan; 2. M.W. Williams, Terfynnuau, Talybont; 3. Efa Roberts, Glanfa.

Cymorth Cristnogol.

Mae'n wythnos Cymorth Cristnogol rhwng Mai 11 ac 19, ac fe hoffai trefnydd y casgliadau o dŷ i dŷ apelio am gymorth. Ar hyn o bryd mae ffyddloniaid prin yn gwneud y casglu ers sawl blwyddyn, ac mae angen gwirfoddolwyr i ysgafnhau'r gwaith. Mae rhai ardaloedd lle nad oes neb yn gwirfoddoli ar hyn o bryd, sef Bro Rhuddallt, Cefn Elan, Glanmoelyn, Minffordd a'r cylch, Tal y Bont, Rhos Rug a'r Ceunant. Os oes unrhyw un yn fodlon rhoi eu hamser i gynorthwyo, yna cysylltwch â'r trefnydd, Rhian Thomas, Glanffrwd, Ffordd yr Orsaf. (Ffon: 07833 292720 neu 01286 677217)

Diolch i'r Dosbarthwyr.

Wedi blynyddoedd o ddanfôn yr "Eco" o ddrws i ddrws, penderfynodd Ann Lloyd Griffith ac Alan Vincent Owen ymddeol o'u gwaith. Diolchwn iddynt am eu llafur dros y blynyddoedd, ac ar yr un pryd, roi croeso i Sian Williams a Non Roberts am wirfoddoli i wneud y gwaith o hyn ymlaen.

Croeso i Gwenlli a Sean a'u plantos Efa, Cynan ac Edi Sion i bentref Llanrug. Maent wedi symud o Benisa'rwaen ac wedi ymgartrefu yn Ty'n Buarth, Ffordd Glanmoelyn. Maent wedi dewis rhoi yr enw gwreiddiol yn ôl ar Starling Cottage fel y'i galwyd gan y cyn berchnogion. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

Diolch Ddechrau mis Mawrth, bu Dora Roberts, 1 Min y Parc, Tan y Coed a Mair Hughes, Hafan yn cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r ddwy wedi cael clun newydd ac maent yn gwella'n dda iawn erbyn hyn. Hoffent ddiolch o galon i'w teuluoedd, ffrindiau a chyd weithwyr am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt drwy gyfarchion ac anrhegion. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn.

Maent hefyd am gydnabod y gofal hynod o arbennig a gawsant gan y staff ar Ward Enlli a thîm meddygol Mr. Ganapathi. Braf yw cael cyfarch dwy o'r staff sydd yn byw ym mro'r Eco sef Delyth Jones o Lanrug a Nia Lewis o Benisa'r waen. Diolch genod am eich gofal, mae'n dyled yn fawr iawn i chi.

Gwellhad buan Dymuniadau gorau i Griffith P. Jones (Max) Nant Y Glyn yn dilyn ei ddamwain.

Capel y Rhos

Fore Sul, Ebrill 6ed, bedyddiwyd Nathan John, mab bach Dawn a Jonathan Williams, Prysgol a brawd bach Sophie, Mathew a Daniel. Braf oedd cael croesawu'r teulu i'r oedfa a dymunwn bob bendith ar y rhieni wrth fagu Nathan.

Yn dilyn yr oedfa fore Sul, Ebrill 13eg, bedyddiwyd Mollie Alice merch fach Iona a Tom. Mae'n wyres fach i Maureen ac Alun Pierce, Bryn Moelyn. Pob bendith i chwithau hefyd wrth fagu Mollie fach. Gweinyddwyd y ddau fedydd gan y gweinidog y Parch Marcus Wyn Robinson.

Oedfaon mis Mai

- Mai 4 – Y gweinidog Y Parch Marcus W Robinson. Gweinyddir y Cymun.
- Mai 11 – Parch Dafydd Lloyd Hughes
- Mai 18 – Y gweinidog
- Mai 25 – Parch Cath Williams

O DDIM

Ddylwn i ddim dweud peth fel hyn, ond peidiwch â chredu bob ddim ddarllenwch chi yn y golofn hon! Meddwl ydw i'n benodol am y teitl sydd uwch y golofn bob mis. 'Un funud fach' wir! Byddai 'un awr hir (iawn)' yn deitl mwy addas y tro hwn. Rwy'n eistedd yma wrth y ddesg a dim ond y teitl o'm blaen ers mwy o amser nag y carwn ei gyfaddef. Does ond gobeithio y bydd rhywbeth o werth wedi ei ddweud erbyn y diwedd.

Pe byddai gen i stori neu ddarlun mi fyddai'n wahanol. Pe byddai gen i ryw fath o syniad ble i ddechrau, mi fyddai gobaith i mi ddod i ben â'r gwaith. Ond y drwg yw nad oes gen i na syniad na llun na hyd yn oed adnod yn sbardun i'r meddwl heno. Dim yw dim. Mae mor ddrwg â hynny.

Rwy'n genfigennus o'r bobl sy'n medru troi'r dim byd yn rhywbeth o werth. Onid dyna mae'r beirdd a'r llenorion a'r artistiaid a'r cyfansoddwyr gorau wedi ei wneud erioed? Creu rhywbeth o ddim; a chreu llawer mwy na 'rhywbeth' hefyd. Yn sicr, dyna mae'r rhai sy'n creu gwaith gwreiddiol wedi ei wneud: cychwyn heb ddim, a meddwl am ryw syniad neu ddelwedd, a datblygu'r syniadau a'r delweddau wedyn i greu eu campweithiau. Nid bod y gwaith hwnnw'n rhwydd chwaith. Trwy chwys ac ymdrech ac ymroddiad mawr y daeth llawer o'r campweithiau ym myd llên a cherdd a chelf i fod, mae'n siŵr.

Ond be wnewch chi heb y syniad cyntaf hwnnw? Be fedrwch chi ei ddeud pan nad oes gennych chi syniad ble i gychwyn? Dyna fy mhroblem i heno. Ac os na wna'f gychwyn arni'n fuan, fydd gen i ddim byd i'w anfon i'r Golygydd (a minnau wedi addo iddo yn y lle gwallt ddod y byddwn yn anfon y golofn iddo erbyn bore fory).

Yn y cyfyngder hwn, beth well fedraf ei wneud na meddwl am Dduw? Oherwydd Duw'r Creawdwr yw'r Duw a addolwn. Beth bynnag a ddywed neb am y bydysawd, a'r modd y daeth popeth i fod, Duw sydd y tu ôl i bob dim. Ef, trwy ei air a'i allu a luniodd y cyfan, a hynny allan o ddim. Beth bynnag a gredwn am y modd a'r pryd y daeth y cyfan i fodolaeth, mae'n rhaid wrth Greawdwr. A'r Creawdwr hwnnw yw'r Duw y credwn ynddo ac yr addolwn ef. Ac nid mewn cyfyngder yn unig chwaith, ond bob dydd, mynnwn 'un funud fach' i feddwl am Dduw, ein Creawdwr a'n Cynhaliwr, a'n Hachubydd trwy ei gariad a'i ras yn ei Fab Iesu Grist.

JOHN PRITCHARD

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574


GWYNANT
PIERCE
CYNRYCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL
— Uned 1 —
Fferm Bryn Afon
LLANRUG
(01286) 674183
07889899901

Blodau
Racca
PENISARWAUN

Rhodod o'r Galon
Yw Blodau
• **Basgedi Planhigion**
• **Basgedi Crog**
• **Planhigion Gardd**
Hefyd, Compost ar werth
Alwyn a Sarah Jones
(01286) 870605

RHOSTIO
MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER
POB
ACHLYSUR

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Talu 75% O Gostau Cymwysterau Gweithgareddau Awyr Agored



Hoffech chi gael gyrfa neu waith rhan amser yn y sector awyr agored? Os angen hyfforddiant arnoch er mwyn cael cymhwyster? Mae gan Fentrau Iaith y gogledd, ar y cyd gyda chynllun datblygu gwledig Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd gynllun arbennig sydd yn cynnig talu 75% o gostau eich cymwysterau. Gall cymwysterau fod gymaint â £1,000 ac felly mae cael 75% o'r costau wedi ei thalu yn gynnig na allwch ei fethu. Mae dros 100 o unigolion ar draws y gogledd wedi cael budd o'r cynllun hyd yma. Dyma sydd gan rai i'w ddweud:

“Mae'r cymorth a gefais gan gynllun awyr agored wedi bod yn hanfodol i mi ennill fy nghymwysterau hyfforddwr ac arweinydd eirafyrddio. Drwy gefnogaeth y Mentrau Iaith, gallaf helpu bobl eraill i ddarganfod y gamp rwyf yn ei garu yn eu hiaith naturiol”

Matt Garnett, Gwynedd, Hyfforddwr Eirafyrddio

“Yr wyf yn gwerthfawrogi'r cymhorthdal dderbyniais gan Fenter Iaith Conwy am y cymwysterau yr wyf wedi gwblhau, nid yn unig yr wyf wedi cael fy nghymhwyso yn y gweithgareddau yr oeddwn yn edrych i hyfforddi ynddynt, ond mae'r cynllun wedi fy ysgogi i wella fy safon personol yn y gweithgareddau hyn. Un o'r elfennau mwyaf gwobrwyol o'r cynllun yw fy mod yn gallu pasio'r sgiliau

ymlaen i blant a phobl ifanc lleol, a fydd, gyda gobaith, yn gweld fod dyfodol cyflogedig iddynt hwy drwy'r gweithgareddau awyr agored maent yn eu mwynhau”

Guto Roberts, Ynys Môn, Hyfforddwr Syrffio a Mynydda

“trwy gynllun Mentrau Iaith, rwyf wedi llwyddo i gael cymorth ariannol i gwblhau nifer o wahanol fathau o gymwysterau awyr agored, o'r traddodiadol megis mynydda a dringo, i bethau amgen fel syrffio ac eirafyrddio. Mae'r cymorth hwn wedi fy ngalluogi i neud bywoliaeth yn y maes awyr agored, ni faswn byth wedi llwyddo i ariannu'r holl gyrsiau trwy fy mhoced fy hun. Erbyn hyn mae yna nifer o Gymry Cymraeg yn gweithio yn y maes diolch i gyllid Mentrau”

Bedwyr ap Gwyn, Conwy, Hyfforddwr Eirafyrddio, Syrffio, Mynydda, Dringo a Beicio

Cyfle arbennig i ddechreuwyr neu brofiadol felly peidiwch a cholli eich cyfle.

Os ydych yn byw, gweithio neu'n gwirfoddoli yn ardaloedd gwledig gogledd Cymru cysylltwch heb oedi gyda'ch Menter Iaith leol neu swyddog y cynllun Esyllt Tudur, Menter Iaith Conwy, 01492 642357 neu esyllt@miconwy.org



Deiniolen ar y Bocs



Efallai bod rhai ohonoch wedi sylwi wythnos diwethaf bod camerâu teledu o gwmpas y pentref yn dilyn ambell un, yn y bingo ar nos Wener, yn y caffi ac yn cae swings?

Bu criw o'r rhaglen Am Ddrama, o dan arweiniad y canwr enwog Mr Wynne Evans yn ffilmio hefo criw Côr Cynfi am 6 diwrnod er mwyn dod i'w hadnabod, eu hyfforddi i berfformio 3 cân, ac i gynnal cyngerdd ar ddiwedd yr wythnos.

Cymdeithas Undebol Deiniolen

Y mis diwethaf cawsom noson ddifyr iawn dan ofal y Parchedig John Pritchard. 'Hanner Munud' oedd testun y sgwrs, ac roedd yn bwrw golwg 'nôl ar rai o'r straeon a fu'n sail i golofnau 'Un Funud Fach' yn Eco'r Wyddfa ers 22 o flynyddoedd pan ddechreuodd o gyfrannu at y papur. Diolchwyd iddo yn gynnes gan Mr John Ll. Williams.

Cymanfa'r Annibynwyr
Cynhelir y Gymanfa bawn Sul, Mai 11fed am 2.00 yn Neuadd

Gymuned Penisarwaun. Cymerir y rhan dechreuol gan Ysgol Sul Ebeneser Deiniolen. Gwneir casgliad at Gynllun Efe. Bydd paned ar y diwedd.

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus

Llongyfarchiadau i Elliw Geraint Hughes, Coed Mawr, ar fod yn aelod o'r tîm a gafodd y drydedd wobwr yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Ffermwyr Ieuainc Cymru yn Llanelwedd ddiwedd mis Mawrth. Roedd hi'n rhan o'r tîm oedd yn cynrychioli Clybiau Ffermwyr Ieuainc

Eryri, a'r dasg i Elliw oedd gwrthwynebu'r datganiad: "Cred y tŷ hwn y dylai pob plentyn yng Nghymru gael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 11 oed." Roedd cyflwyno dadl sy'n groes i'w barn bersonol yn anodd iawn, ond roedd y dadlau'n frwd, meddai Elliw! Tîm Sir Gaerfyrddin oedd yn fuddugol a Cheredigion yn ail.

Yr Ysgol Sul Mae'r plant wedi bod yn brysur gyda gwaith llaw dros yr wythnosau diwethaf yn paratoi anrhegion ar gyfer Sul y Mamau ac ar gyfer y Pasg. Rydym yn falch iawn hefyd o gael croesawu 3 aelod newydd i'n plith - Elin Dafydd, ac Eli a

Jac.

Ysgol Sul Deiniolen fydd yn gyfrifol am y gwasanaeth dechreuol yn y Gymanfa eleni, fydd yn cael ei chynnal yn Ysgol Penisarwaun ar y 11eg o Fai am 2.00 yn y prynhawn, a ninnau hefyd fydd yn gyfrifol am y te bach fydd yn dilyn y gymanfa. Dewch yn llu i gefnogi'r plant.

Mae croeso cynnes i unrhyw un o'r pentref ymuno â ni ar fore Sul am 10.15 yn festri Capel Ebeneser.

Dymuniadau Gorau Gyda chyfnod arholiadau ar fin dechrau i lawer o bobl ifanc y pentref, dymunwn yn dda iddynt i gyd.

Gŵyl Deiniolen ar cylch



Llongyfarchiadau i Alis Mair Jones, Brenhines; Siôn Elidir Thomas, Tywysog; Catrin Williams, Tywysoges; Ffion Baston, Merch y blodau; Gwion Owen, Tywyswr Bach.

YSWIRIANT FUW



Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant Fuw?

Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683

Dwyrain Sir Gaernarfon


Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935



Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996



FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772

Symudol- 07840 794269

Llongyfarchiadau i'r isod ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd a Dymuniadau Gorau iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala ym mis Mai.

Osian Trefor Hughes: Unawd Bl 3 a 4 (1af) a Cerdd Dant Bl 3 a 4 (1af).

Erin Wyn Williams: Unawd Bl 2 ac iau (1af).

Parti Cerdd Dant: (2ail).

Cân Actol: (1af).

Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist Llandinorwig I ddathlu Gŵyl Ddewi eleni treuliodd aelodau'r gymdeithas bnawn hyfryd iawn yn gwledda ac yn sgwrsio yn y Caban, ym Mrynrefail yng nghwmni y Parch Gwynfor Williams, Caernarfon. Ar ôl dweud y Gras Bwyd cydymdeimlwyd yn ddwys iawn â Mr Derek Morris, Sandra, Gerallt, Gwydion a'r teulu oll yn eu profedigaeth drist o golli Eleanor, oedd yn Warden yr Eglwys ac yn aelod ffyddlon o'r Gymdeithas.

Cafwyd sgwrs hynod ddifyr gan y Parch Gwynfor Williams a hyfryd oedd rhannu gydag ef ei brofiadau a'i anturiaethau pan aeth ar ei wyliau at aelodau o'i deulu yn Unol Daleithiau'r America. Trefnwyd y cyfan gan Mrs Rhianwen Jones a Mrs Buddug Hughes a diolchwyd i bawb gan Mr Brian Price.

Ar nos Lun, Ebrill 7ed, daeth aelodau'r Gymdeithas at ei gilydd eto, yn yr Eglwys y tro hwn, i fwynhau noson arall hynod ddiddorol yng nghwmni Mr Cynrig Hughes, Pentir, gyda chymorth ei ferch a'i fab yng nghyfraith, Cadi ac Elfyn. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth byr ac yna cydymdeimlwyd â theulu y ddiweddar Mrs Alice Thomas yn eu profedigaeth o golli un oedd mor annwyl ganddynt, a hefyd gyda Mrs Eira Wyn Hughes yn ei phrofedigaeth annisgwyl o golli ei brawd yng nghyfraith yn Rugby. Cyflwynwyd y gwsteion gwadd gan Mr Brian Price a thema'r noson gan

Mr Hughes oedd, Dyddiadur ei Daid, sef Mr Ellis Rowland Hughes, oedd yn byw yn Berthen Gron, Deiniolen, cyn symud, flynyddoedd yn ddiweddarach i Dai Caradog. Chwarelwr a thyddynnwr oedd ei daid a'r peth cyntaf y byddai yn ei gofnodi yn ddyddiol yn ei ddyddiadur oedd y tywydd. Wrth gwrs 'roedd y tywydd yn bwysig iawn i un oedd yn gweithio yn y chwarel drwy'r dydd ac yn dod adref gyda'r nos ac ail afael ynddi i fwydo'r anifeiliaid, carthu, godro, lladd gwair a'i hel a llawer mwy, mae'n siwr. Yn ôl ei ddyddiadur 'roedd ei gartref, ei deulu a'r chwarel yn agos iawn at ei galon a hefyd ei gapel, sef Capel Ebenezer, lle bu'n ysgrifennydd am hanner can mlynedd. Cafwyd noson ddifyr dros ben a phawb wedi dotio at gymaint o wybodaeth oedd gan Mr Hughes am ei daid a'i deulu a'r diddordeb roedd yn ei gymryd ynddynt.

Oedd wir, 'roedd hon yn noson oedd yn sefyll allan a llawer o'r aelodau yn cofio am hyn a'r llall a hwn ac arall a llawer o sgwrsio a thrafod yn mynd ymlaen. Diolchwyd am y cyfan gan Mrs Jennie Williams ac yna mwynhawyd paned a theisen oedd wedi eu paratoi gan Mrs Rosina Worth a Mrs Mary Ll. Lewis. Diweddwyd drwy gydadrodd Y Gras.

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiâu ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

**CEFNOGWCH JILL EVANS
PLEIDLEISIWCH I BLAID CYMRU**



Mae Jill Evans wedi:

- Sicrhau statws cydswyddogol i'r iaith Gymraeg yn Ewrop
- Gweithio dros leihau gwastraff a biwrocratiaeth yn yr UE
- Ymgychu dros heddwch a byd mwy cynaliadwy
- Pleidleisio bob amser dros yr hyn sydd orau i Gymru.

**ETHOLIADAU EWROP
DYDD IAU 22 MAI 2014**



Plaid
Cymru

Hyrwyddwyd gan Rhuanedd Richards ar ran Plaid Cymru, Tŷ Gwynfor, Marine Chambers, Llys Anson, Caerdydd, CF10 4AL

25

Cynghorwyr y Blaid yn galw am dystiolaeth ar lawr gwlad i anghenion tai i'r dyfodol

Mewn cyfarfod diweddar galwodd Cynghorwyr Plaid Cymru Gwynedd am dystiolaeth ar lawr gwlad am anghenion tai i'r dyfodol, a bod angen gwneud hyn ar lefel cynghorau cymuned a'u cysylltiadau. Daw'r alwad yn dilyn ymgynghoriad presennol y Cyngor ar ei Gynllun Datblygu Lleol 15 mlynedd. Mewn cyfarfod diweddar o Gynghorwyr Plaid Cymru cafwyd trafodaethau manwl ynglŷn ag anghenion tai amrywiol o fewn ardaloedd y sir. Trafodwyd enghreifftiau lle mae anghenion tai cwbl wahanol i ardal wledig fel Bwlchtocyn ger Abersoch, Pen Llŷn o'i gymharu ag anghenion tai mewn pentref fel Waunfawr ar gyrion tref Caernarfon. Cytunwyd bod anghenion tai yn gwahaniaethu'n ddiffrwng o edrych ar yr economi leol, yr isadeiledd a'r patrwm ieithyddol o fewn ardaloedd ac nad oes un strwythur amlwg all siwtio pob ardal. Cytunodd Cynghorwyr Plaid

Cymru yn unfrydol y byddant yn canolbwyntio dros y tri mis nesaf ar gasglu tystiolaeth leol drwy weithio gyda chynghorau cymuned. Yn ôl Arweinydd Plaid Cymru Gwynedd, Y Cynghorydd Dyfed Edwards: "Mae'n amlwg bod anghenion tai gwahanol ledled Cymru. Nid ydym yn unigryw yma yng Ngwynedd, mae gennym gymunedau trefol a gwledig a gwahaniaethau helaeth o fewn y wardiau. Mae gennym bobl ifanc yn symud i Gaerdydd a mannau eraill i chwilio am waith, mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio yn ogystal â phoblogaeth sy'n symud o fewn y sir. Mae gennym stoc dai o fewn Gwynedd sy'n anfoddhaol. Mae gennym bobl yn crefu am gartrefi fforddiadwy a theuluoedd sy'n gweiddi am gartrefi mwy o faint. Mae gennym Gyfrifiad 2011 i'w ystyried ac effaith datblygiadau tai ar yr iaith Gymraeg. "Fel grŵp Cynghorwyr Plaid

Cymru rydym yn angerddol dros ein cymunedau ac yn benderfynol o wneud ein gorau glas gan wrando ar anghenion lleol. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu gweithio gyda swyddogion y Cyngor i lunio pecyn gwybodaeth y gallwn ei ddefnyddio o fewn ein cynghorau cymuned yn ein wardiau, gan holi iddynt am eu cefnogaeth i annog cymaint o bobl leol ag sydd bosib i ymgysylltu â ni wrth gynllunio'r anghenion tai lleol ar gyfer y dyfodol. "Rydym yn annog pobl leol i ymateb yn gadarnhaol i unrhyw ohebiaeth a gânt yn holi am wybodaeth ynglŷn â thai lleol. Fel Cynghorwyr Plaid Cymru, rydym yn awyddus i annog cymaint o bobl leol ag sy'n bosib i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y dystiolaeth gorau posib i Gyngor Gwynedd fel rhan o'r broses ymgynghori ar dai. Mae angen i ni sicrhau cydbwysedd, ac rydym yn awyddus i sicrhau

ein bod yn gwneud popeth posibl i gynllunio'n bositif ar gyfer dyfodol ein cymunedau a'r iaith Gymraeg. "Mae nifer o unigolion, grwpiau a sefydliadau eisoes wedi bod mewn cysylltiad â ni gydag ymholiadau a gwybodaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Rydym yn ddiolchgar iddynt am dreulio amser ac ymdrech i edrych ar anghenion tai ar gyfer eu hardaloedd lleol. Rydym bellach angen tystiolaeth glir y gallwn ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru, gan ddangos lle mae angen tai yn lleol a pha fathau o ddatblygiadau tai sydd eu hangen," meddai'r Cynghorydd Dyfed Edwards. Mae ymchwil cychwynnol a wnaed gan Gyngor Gwynedd eisoes yn awgrymu y gall tir gael ei ddynodi ar gyfer hyd at 2,000 o gartrefi ychwanegol yng Ngwynedd dros 10 mlynedd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun yn rhedeg o 2011 hyd 2026.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
williamshy@parliament.uk

Lansio gwefan newydd Llwyddo'n Lleol

Mae prosiect Llwyddo'n Lleol wedi lansio gwefan newydd fel pwynt cyswllt newydd i bobl ifanc gael gwybodaeth am yr hyn mae'r prosiect yn ei gynnig.

Mae Llwyddo'n Lleol yn brosiect sydd yn cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd, ar y cyd gyda Chynghorau Môn, Conwy a Dinbych i geisio annog diwylliant o fentro ymhlith pobl ifanc 11-19 oed.

Mae'r prosiect, sydd wedi cael ei gefnogi'n ariannol gan Gronfa Gymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd, yn cynnwys amrywiaeth o raglenni i feithrin hyder pobl ifanc yn yr hyn y gallan nhw ei wneud i gael gwaith yn eu cymunedau - a'u hannog nhw i ystyried hunangyflogaeth fel dewis ymarferol am yrfa.

Bydd y wefan newydd yma'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu mwy am sut gall prosiect Llwyddo'n Lleol fod o gymorth iddyn nhw i ddatblygu eu mentergarwch. Yn ogystal, mae'n gyfle i gael cipolwg ar lwyddiannau rhai pobl ifanc sydd wedi derbyn cymorth gan brosiect Llwyddo'n Lleol yn y gorffennol.

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi Cyngor Gwynedd:

"Mae dyfodol economi'r gogledd yn dibynnu ar sicrhau bywoliaethau da i'n bobl ifanc fel bod ganddyn nhw'r dewis o aros yn eu cymunedau.

"Mae Llwyddo'n Lleol yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy tuag at sicrhau bod sgiliau pobl ifanc yn cyfateb i ofynion ein cyflogwyr a thrwy eu hannog nhw hefyd i ystyried cychwyn eu busnesau eu hunain.

"Bydd y wefan yma'n ei gwneud hi'n llawer haws i bobl ifanc sydd eisieu gwneud cais ar gyfer bwrsariaeth gan Llwyddo'n Lleol i wneud hynny. Byddwn yn annog unrhyw berson ifanc gyda syniad am fusnes neu fenter gysylltu gyda Llwyddo'n Lleol i weld os oes modd datblygu eu syniad ymhellach gyda'u cymorth nhw."

Am fwy o wybodaeth am Llwyddo'n Lleol ewch i www.llwyddo-potensial.co.uk neu cysylltwch â Nia Medi Williams drwy e-bostio LlywddonLleol@gwynedd.gov.uk neu ffoniwch 01286 679867.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Clwb 300 Enillwyr mis Mawrth oedd: £30: Mrs Ann Jones, Llain Alaw; £20: Mrs Hawys Tuff, Crynllwyn, 8 Llys y Waun; £10: Mr Siôn Wyn, Dôl Gwryfai, Bodhyfryd.

Dymuniadau Da Unwaith eto mae cyfnod arholiadau pwysig ysgolion a cholegau wedi cyrraedd. Dymuniadau gorau i bob un sydd yn sefyll yr arholiadau hyn eleni.

Ymdeoliad Hapus Dymuniadau gorau i Nesta Eluned, Tremnant, ar ei hymdeoliad o'i swydd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Priodas Hapus Dymunwn briodas hapus i Guto Llywelyn, Garmon, Stad Tŷ Hen, ar ei briodas â Gwenno yn ddiweddar.

Babanod Newydd Llongyfarchiadau i Janice ac Elfed Jones, Bryn Menai, ar ddod yn nain a thaid i ŵyr bach newydd, Robert William, mab a anwyd i'w mab Alan a'i gymar, Suzanna.

Llongyfarchiadau hefyd i Richie a Maria, Stad Tref Eilian, ar enedigaeth eu mab bach, Mickie, ŵyr newydd i Mike ac Alison, Stad Dôl Erddi.

Damwain Car anfonwn ein cofion, gan ddymuno eu bod yn gwella at Mrs Mavis Allen, Pen-y-bont, a'i ŵyr Oliver wedi iddynt fod mewn damwain car ar y ffordd ddim yn bell o'u cartref yn ddiweddar.

Newid Aelwyd Dymunwn yn dda i Bryn ac Ann, Sioned a Hywel, Heulfryn, yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon. Diolch iddynt am eu cyfraniad i'r Waun yn ystod y blynyddoedd. Tybed, a gobeithio'n fawr, y cawn ni goeden i oleuo ein pentref y Nadolig hwn.

Dymunwn yn dda i'r teulu bach sydd wedi ymgartrefu yn Heulfryn ac i deuluoedd eraill sydd wedi symud yma i fyw yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cofion Cynnes Anfonwn ein cofion cynnes at Mr Elwyn Griffith, sydd wedi mynd i aros i Gartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli am gyfnod byr.

Croeso Adref i Mr Rol Williams sydd wedi bod yn y Cartref am gyfnod. Gobeithio y byddwch yn cryfhau bob dydd ar ôl cael dod adref i'r cynefin.

Adref o'r Ysbyty Yn ystod y mis cymerwyd Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian a

Gerald Rowlands, 2 Ael y Bryn i'r ysbyty. Bu Mrs Alice Johnston, Stad Tref Eilian yn yr ysbyty yn cael triniaeth i'w llygaid; Llywela Davies, Stad Tref Eilian yn cael triniaeth clun a Gareth Griffith, Stad Tref Eilian yn cael triniaeth i'w fraich. Mawr hyderwn eich bod i gyd yn gwella wedi cael dod adref.

Profedigaethau

Anfonwn ein cydymdeimlwyd dwys at deulu Melin y Wig yn eu profedigaeth o golli mam Raymond, mam yng nghyfraith annwyl i Ann a nain hoff i'r genod.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd ag Eleri a Jason Anderson, Fron Deg yn eu profedigaeth a'u hiraeth o golli tad Eleri a thaid annwyl i'r hogia.

Daeth y brofedigaeth o golli ei dad i ran Ioan a Diane, Arosfa. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi ac â'r hogia yn colli taid hoffus.

Daeth profedigaeth i ran teulu Llannerch. Bu farw Mr Bob Ackers, Mon Abri (gynt), tad Corrine a'i phriod a thaid annwyl i'r plant. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth.

Clwb ar ôl ysgol Waunfawr

Rydym yn chwilio am 2 aelod o staff i weithio yng Nghlwb ar ôl yr Ysgol Waunfawr.

Swydd 1: Arweinydd y Clwb. Orlau: Hyd at 18 awr yn ystod tymor yr ysgol. Rhaid i ddeilydd y swydd hon fod â Chymhwyster Lefel 3 mewn Gofal Plant.

Swydd 2: Cynorthwy-ydd Clwb. Orlau: hyd at 16 awr yn ystod tymor yr ysgol. Yn ddelfrydol bydd gan ddeilydd y swydd hon gymhwyster Lefel 2 mewn Gofal Plant neu'n gweithio tuag ato.

Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â Rhian ar 650466 neu Mererid 650660.

Dyddiad Cau: Dydd Gwener, Mai 2il 2014 neu mor fuan a phosib os gwelwch yn dda.



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

CHIROPODYDD
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
GALWADAU I'R CARTREF
Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD

DODDREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft
— PRISIAU CYSTADLEUOL —
Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwryfai Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475



Ar ben arall i'r lein

Does dim yn digwydd ar y dyfroedd sy'n werth nodi ar y funud, mae pethau'n eithriadol o ddistaw gyda ychydig iawn i weld ar y glannau. Mae fy nghyfleon i wedi bod yn ddim gan fy mod mewn platar at fy mhen-glin, wedi torri fy ffêr tra yn cael Melin y Cim yn barod at y tymor ymwelwyr, wel dyna garchar ond mae cryn gyflenwad o blu newydd wedi eu clymu yn barod at y diwrnod y caf fy nhraed yn rhydd - "A'm baglau wedi eu torri am traed yn gwbl rhydd". Ond i fod o ddifri, mae'n rhaid diolch pob dydd am y gallu i fynd, rhyw aflonyddwch am wythnosau yw anaf fel hyn a nid cystudd hir dymor fel mae llawer yn gorfod ei wynebu.

O'r holl ddyfroedd, Dywarchen yw'r unig lyn ble mae tipyn o 'sgota yn cymryd lle. Mae brithyll yr enfys sydd wedi bod yno dros y gaeaf mewn cyflwr ac o bwysau arbennig, ond eto y brithyll brown sy'n tynnu'r sylw. Mae rhain i'w gweld wedi goresgyn gollwng lefel y llyn ar ddechrau 2013 gan fod eu cyflwr yn arbennig. Mae cynllun stocio brithyll yr enfys eleni yn ddechrau dydd Gwener y Groglith, wedyn mi gawn weld chwipio'r dŵr. Yn yr wythnosau yn dilyn fe ddaw llynnoedd Nantlle a Cwellyn i rym a dyma'r amser ble bydd prysurdeb mawr ar hyd yr hen le 'ma.

Mae'n rhaid dweud mai ychydig iawn y byddaf yn troedio dyfroedd tu allan i'm milltir sgwâr, ac yn dilyn trychineb Llyn Padarn 2009, ychydig iawn o bysgota ar ei ddyfroedd 'rwyf wedi wneud chwaith. Efallai fy mod wedi rhyw dorri fy nghalon o weld cyfaill mynwesol yn dioddef. Ar ei wyneb y byddwn yn treulio llawer iawn o fy amser, allan yn o gynnar y bore ac yn ôl gartref am tua hanner awr wedi naw. 'Roedd y diwrnod i gyd o fy mlaen, ond at gyda'r nos, rhyw awr cyn y machlud byddwn yn troedio glannau'r Seiont, i lawr y Finiog hyd ei bod wedi tywyllu, chwilota am rhyw sewin neu ddau, weithiau byddwn yn cael y fraint fwyaf sef bachu eog. Mae'r patrwm yma yn parhau ar yr afon ond mae'n gywilydd imi ddweud, dydw i heb fod allan ar y llyn ers tair blynedd - gweld dim, dal dim na bachu dim chwaith. Mae rhai yn dal iddi ond yn ôl be dwi'n glywed yr unig beth sy'n bachu yw draenogiaid, a tydi rhain yn da i ddim cyn belled a dwi'n y cwestiwn.

'Rwyf efallai yn rhy feirniadol o'r pysgodyn yma, gan, yn ôl pob golwg dyma'r cyfeirydd mwyaf pendant sy'n bod fod y bysgodfa yn dirywio yn gyflym. Pam newid fy meddwl, wel cefais afael ar lyfr Pysgota yn Ardal y Llynnoedd, Lloegr, ail gyhoeddiad sydd gen i ond yn 1899, sef blwyddyn yr argraffiad cyntaf, mae cryn gyfeiriadau am y torgoch yn llynnoedd Windermere a Coniston. Yn anffodus, er hir chwilota dros y blynnyddoedd, dwi di methu â chael fy nwylo ar unrhyw beth tebyg am dorgochiaid Cymru. Ond i fynd ymlaen fe ymchwiliais ymhellach ar y we, a dod

ar draws safle Yr amgueddfa bysgota ar lein, dyma i chi safle ddiddorol, yma mae hanes manwl o'r bysgodfa torgochiaid ar Lyn Windermere. A dyma sy'n cael ei ddweud - Mae ansawdd dŵr Windermere wedi bod yn dirywio yn raddol dros y degawd diwethaf gyda chanlyniadau enbyd i boblogaeth y pysgod - pan ddychwelom yn dilyn absenoldeb o ugain mlynedd 'roedd yn amlwg fod poblogaeth y draenogiaid wedi ffrwydro allan o bob rheswm, a bod nifer y brithyll wedi dymchwel yn drychinebus. Dyma union sefyllfa Padarn heddiw.

Mae yna dros ugain mlynedd ers i'n problemau amlygu eu hunain yma, ac er y brwydro a'r bradychu gan yr awdurdodau mae dydd y farn yn agosau o'r diwedd. Mae 1 a 2 o Fai wedi ei gadarnhau fel dyddiadau'r achos yn yr Uchel Lys. Os daw beirniadaeth ffafrïol i'n rhan, yna o'r diwedd bydd gobaith o weld pethau yn dechrau symud go iawn. Ond cofiwch mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru yn gyrff grymus dros ben, a pwy a ŵyr be fydd eu hamddiffyniad i'r achos, ond mae'n debyg y bydd yn chwyrn a prin iawn fyddant o ddisgyn ar eu beiau.

Fodd bynnag pa bynnag ffordd y disgyn y geiniog fe fydd adroddiad at eich sylw yn rhifyn Mehefin. Mae un peth yn sicr, oni bai ein bod fel cymdeithas yn aelodau o'r corff Fish Legal mi fuasai wedi bod yn amhosib i gael cynrychiolaeth gyfreithiol arbenigol fel hyn. Mae'r gost hyd yn hyn yn £45,000.00, ac mae pob tiffeddiannwr a perchenogion pysgota wedi gallu manteisio ar hyn yn ddi-dâl drwy ymroddiad y gymdeithas. Mae pawb i'w gweld yn gytûn i ddisgwyl i weld be a ddaw. Ar ran y gymdeithas hoffwn ddiolch i chwi oll am eich amynedd a'ch caredigrwydd.

Cyfeiriais y mis diwethaf y buaswn yn rhoi mwy o wybodaeth am y trefniadau i gynnal dyrnodiau hyfforddi a gwybodaeth wedi'u canoli ar Lyn Gwesty'r Seiont Manor, Llanrug. Yn anffodus nid yw'r trefniadau wedi cael eu cwblhau, rwy'n gobeithio cael sgwrs â'r rheolwr newydd yn y dyddiau nesaf.

Fel rhan o gynllun i geisio adfer y bysgodfa, yn ystod 2010 fe ddechreuwyd cynllun o stocio cywion eog yn yr Afon Arddu. Cylch bywyd eog yw treulio rhwng dwy a thair blynedd yn yr afon cyn mudo i'r môr, treulio o leiaf un gaeaf yno cyn mudo'n ôl i'w afon enedigol. Gan ei bod yn amhosib nofio i fyny'r Ceunant Mawr, yna buaswn yn ddiolchgar dros ben os buasai'n bosib i chwi gerddwyr gadw golwg, yn enwedig o fis Awst ymlaen, a rhoi gwybodaeth os bydd eogiaid i'w gweld yn neidio yng ngwaelod y rhaeadr. Dyna fuasai'r arwydd gorau fod ein cynllun yn dechrau gweithio. Am faint fydd yn bosib cario 'mlaen â hyn wn i ddim, gan ei bod yn edrych yn debyg fod Cyfoeth Naturiol Cymru am geisio ei gorau i gau pob deorfa yng Nghymru. Cawn gadarnhad o hyn un ffordd neu'i gilydd rhywdro yn dilyn 24 Mai eleni.

Nodyn a ddaeth i law drwy e-bost o Lywodraeth Cymru ddechrau'r wythnos, i'n hysbysu eu bod wedi penderfynu dynodi Llyn Padarn a rhan o draeth Y Rhyl yn safleoedd ymdrochi! Wel dyna ni, pwy sydd am ei mentro!

Huw Price Hughes.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd		CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA Cyrraethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd <i>Rolls Royce</i> AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL
--------------	---	--

Pasg Efe



Un o'r digwyddiadau blynyddol a drefnir dan nawdd Cynllun Efe yw diwrnod Pasg Efe ar ddydd Llun cyntaf gwyliau'r Pasg. Fe'i cynhaliwyd eleni eto yn Ysgol Gynradd Llanrug ddydd Llun, Ebrill 14. Gwnaed y trefniadau gan ein gweithiwr ieuencid, Andrew Settatee, a'r tro hwn gwahoddwyd Steffan a Gwenno Morris, a Sioned a Megan, sy'n treulio eu Blwyddyn Gap yng Ngholeg Y Bala, i'n cynorthwyo. Diolch iddynt am eu gwaith paratoi ac am eu prysurdeb yn ystod y dydd.


Cafwyd teirawr brysur iawn, a oedd yn gymysgedd o grefft, chwaraeon, gwneud masgiau, canu mawl, dysgu adnod a chyflwyniad bywiog a gwreiddiol o'r dystiolaeth a geir yn yr efengylau i atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist.

Rhannwyd y plant yn bedwar tîm a oedd yn cynrychioli pedwar o arch-arwyr byd y comics a'r ffilmiau, Batman, Superman, Spiderman ac Ironman, ac roedd cystadlu brwd am bwyntiau ar gyfer gwahanol dasgau'r dydd. Y bwriad wrth ddefnyddio'r arch-arwyr hyn, wrth gwrs, oedd dangos bod Iesu Grist yn fwy ac yn well na'r un o arch-arwyr dychmygol hyn, gan mai ef yw Mab Duw, a ddaeth i'r byd, ac a fu farw ac a dod yn ôl yn fyw.

A hanes atgyfodiad Iesu oedd y sail i holl weithgareddau'r dydd. Cyflwynwyd yr hanes trwy gyfres o fwletinau newyddion ar sgrin fawr, wrth i ohebydd Wedi 3diâu holi Simon Pedr, a'r ddau gyfaill y cyfarfu Iesu â hwy ar y ffordd i Emaus, a Thomas. Clywyd Pedr yn dweud iddo weld y bedd yn wag a'r llyeiniau a fu am yr Iesu wedi eu gadael ar ôl; clywyd y ddau gyfaill yn sôn am y ffordd yr oedden nhw wedi methu ag adnabod Iesu wrth iddo sgwrsio efo nhw ar y ffordd, ond eu bod wedi ei adnabod wrth iddo weddio a thorri'r bara gyda nhw; a chlywyd Thomas yn dweud ei fod wedi gwrthod credu'r hyn a ddywedodd ei ffrindiau am atgyfodiad Crist nes iddo ei weld drosto'i hun. Eglurwyd ein bod ninnau'n gallu credu ynddo er nad ydym wedi ei weld efo'n llygaid.

Daeth 30 o blant (8–11 oed) atom y tro hwn, ac yr oedd yn braf gweld yn eu plith rai wynebâu cyfarwydd i ni ac ambell un a ddaeth am y tro cyntaf. Braf iawn hefyd oedd cael help wyth o'r 'hen stejars', sydd erbyn hyn yn aelodau o CICIau'r ardal.

Roedd pawb wedi dod â phhecyn bwyd a chafwyd cinio sydyn cyn mynd adref gydag wy Pasg bychan a thaflen liwgar yn adrodd stori'r Pasg i'w hatgoffa am y dydd ond yn bwysicach am newyddion syfrdanol y Pasg.



CWRS NEWYDD I'W HERIO

Dros y blynnyddoedd olaf bu twf aruthrol yn yr ardal mewn cystadlu ym myd rhedeg mynydd a thraws gwlad hyd at farathonau llawn. Erbyn hyn mae sawl rhedwr wedi datblygu o fod yn redwyr lefel clwb i wisgo'r fest goch ar lefel ryngwladol. Unwaith eto eleni Alun Vaughan oedd y Cymro cyntaf gartref ym Marathon Llundain.

Ar Sadwrn, Mai 10, gwelir atodiad arall i galendr llawn rasmus yr ardal. Fel modd i roddi cychwyn i dymor Gŵyl Bethel ym mis Awst cynhelir Ras 7k Bethel. Mae'n gwrw diddorol gyda'r cymysgedd anghenrheidiol o wastadedd a dringo. Os bydd amser hefyd ceir cyfle i sylwi ar harddwch y môr a'r mynydd yn y fro hon.

Wedi gadael y Neuadd bydd y rhedwyr yn anelu ar hyd Lon Tre' Gof hyd at Gelli Gyffwrdd. Yna yng Nghornal Sipsiwn, troi i gyfeiriad y Felinheli a'r Fenai. Cario 'mlaen i'r ddringfa heibio'r Wern a Charreg Goch cyn wynebu'r Wyddfa a'i chriw wrth droi am Benrhos. Yna gobeithio y wib olaf ar hyd y lôn waelod yn ôl i'r Neuadd.

Gofynnir i'r rhedwyr gofrestru cyn gynted a phosibl i hyrwyddo'r trefniadau. Y gost am gystadlu yw £7.50. Noddir y ras gan gwmni Eiddo Cyf. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at lwyfannu Gwyl Awst Bethel 2014. I gofrestru gellir cysylltu ar 01248 671755 neu bethel7k@eiddo.co.uk ar e-bost.

Tra bod y cystadleuwyr yn chwysu, bydd adloniant amrywiol wedi ei drefnu i'r plant yn y neuadd. Gobeithio am ddiwrnod braf – ond nid rhy boeth – ble gwelir torf dda o gystadleuwyr a gwylwyr. Pob lwc i'r fenter.

TYMORNEWYDD – ONEWID!

Erbyn hyn mae'r tymor criced newydd wedi dechrau a hynny'n un chwyldroadol. Am y tro cyntaf yn y Brif Adran a'r Adran Gyntaf o Gynghrair y Gogledd bydd y chwaraewyr yn chwarae'r un rheolau a'r gem broffesiynol. 50 pelawd y batiad, uchafswm nifer o belawdau ar fowliwr, cyfyngu ar sefyllfaoedd maesu a'r bêl lydan ar yr ochr goes. Bydd yn ddiddorol gweld sut fydd y chwaraewyr yn ymateb – a'r dyfarnwyr! Gwrthodwyd gadael y chwaraewyr wisgo dillad lliw – mae rhai traddodiadau yn aros. Pam nid crwydro draw felly ar bnawn Sadwrn braf i wyllo.

Fel arfer mae strwythr hyfforddi mewn lle i'n hieuenctid. Mae cryn ddiddordeb ymysg ieuenctid yr ardal. Mae cynllun hyfforddi yng nghlwb Bangor i rai o 7 oed hyd 15 oed a thimau dan 10, 11, 13 ac 15. Am unrhyw fanylion cysylltwch a mi. (01248 670115)

Capiau i Gymru.

Llongyfarchiadau i ddwy o enethod y fro a fu'n cynrychioli tim peldroed dan 16 oed merched Cymru mewn cystadleuaeth yng Ngogledd Iwerddon ddiwedd mis Ebrill. Mae Lois Regan a Chloe Hughes yn chwarae i dim merched Caernarfon. Ennill un a cholli dwy fu eu hanes, ond roedd hyfforddwr y tim, Steve Owen (un arall o hogia'r fro) yn fodlon iawn ar eu perfformiad. Mae'r ddwy yn edrych ymlaen yn eiddgar am y siawns o gael cynrychioli Cymru y tymor nesaf yng nghystadleuaeth dan 17 oed UEFA.

COME ON REF!

"Embaras" chwedl Ifas y Tryc. Nos Lun Pasg heulog. Torf dda ar Ffordd Padarn ar gyfer rownd gyn-derfynol un o brif gwpanau Cynghrair Arfon. A honno'n gem ddarbi hefyd. Ail dimau Llanberis a Llanrug yn herio ei gilydd. Cic gyntaf 6.15. Daeth yn 6.30 a'r ddau dim yn dal i gynhesu. Yn sydyn gwelwyd swyddogion y timau ar y ffôn symudol. Y broblem? Ble roedd y dyfarnwr? Cysylltu a'r dyfarnwr penodedig – yn Nhreffynnon! O! roedd o'n meddwl mai nos Lun ganlynol roedd y gem.

Swyddogion y clybiau yn ceisio cysylltu â dyfarnwyr lleol. Rhai ohonynt eisioes wedi dyfarnu gem y pnawn hwnnw. Dim dewis felly ond gohirio'r gem, a'r sefyllfa chwerthinllyd o'r gŵr wrth y giat yn mynd o gwmpas y dorf yn rhoi arian yn ôl.

Rhaid canmol swyddogion y clybiau am geisio'i gorau i gynnal y gem – doedd yr un swyddog o'r gynghrair ar gyfyl y lle. A hynny ar gyfer rownd gyn-derfynol!



Triathlon Pwllheli.

Daeth Owain Llyr James o Ddeiniolen yn ail yng nghystadleuaeth Triathlon Pwllheli dros y Pasg. Wedi dros awr o frwydro yn y pwll nofio ac yn beicio a rhedeg ar y ffyrdd, dim ond ugain eiliad oedd rhyngddo a'r enillydd. Llongyfarchiadau hefyd i bawb arall o'r fro a gwblhaodd y cwrs, a hynny ar dywydd oer a gwyntog iawn.



Chwaraewr y Flwyddyn.

Mae Jack Burman o Lanrug wedi arwyddo i dim peldroed Caer, ac yn chwarae'n rheolaidd i'w tim dan 9 oed. Yn ystod y mis diwethaf, daeth eu tymor i ben gyda buddugoliaeth yn Nhwrnament y Pasg ym Manceinion. Tim Caer oedd yn fuddugol. Yn y llun gwelir Jack gyda'i dlws o'r gystadleuaeth honno a hefyd Tlws Chwaraewr y Flwyddyn, a enillodd am ei berfformiadau gydol y tymor a aeth heibio.

TLWS CYMDEITHAS PEL-DROED CYMRU ROWND DERFYNOL

STADIWM CORBETTS, Y RHYL, 12.04.2014

LLANRUG 3

Dafydd Noel Williams (55m)
Kevin Lloyd (59m, 81m)

Y WAUN A.A.A. 2

Phil Pearce (62m)
Jamie Foulkes (90+2m)

Denwyd torf o 500 draw i'r Rhyl ar gyfler yr achlysur arbennig yma yn hanes clybiau'r ddau bentref. Ac yn wir, achlysur oedd hi, gyda chanmoliaeth haeddianol i'r Gymdeithas Bêl-Droed a chlwb y Rhyl am rododi dyledus barch i'r achlysur. Canu'r anthem, cyflwyno i'r Llywydd, rhaglen o safon, a'r cyflwyniad o'r tlws ar y diwedd yn raenus – hyd yn oed gyda champagne i'w lifo dros y chwaraewyr. Clod hefyd i Aled Jones y dyfarnwr a'i ystlyswyr am lywio'r gêm a allasai fod wedi troi'n danllyd ar brydiau.

Ar bnawn braf a chae graenus, Llanrug gafodd fantais y gwynt yn yr hanner cyntaf. Yn amlwg, roedd y ddau dim yn nerfus. Y tueddiad gan y ddau dim oedd i hyrddio'r bêl-hir ymlaen. Roedd gan Y Waun ymosodwyr cydnerth, oedd yn gweddu i'r dacteg ond o'r cychwyn roedd Eifion Williams a Terry Jones yn gewri i'r cochion, ac yn gwarchod Dylan Roberts yn y gôl.

Gyda Aled Owen yn gofyn am fwy o reolaeth arafodd Llanrug y gêm, gan gadw'r bêl ymysg chwaraewyr ganol cae. Roedd Dafydd Noel yn cael anhawster i ddylanwadu ond roedd Dylan Owen yn gyd-lynydd da. Hefyd roedd Darren Phillips yn darganfod gofod lawr yr asgell dde. Yn wir danfonodd y cefnwr de ambelli groesiad isel dda i'r blwch a bydd Llanrug yn siomedig na chawsant elw o'r symudiadau hyn. Roedd hyder Llanrug yn cynyddu, ac roedd gallu Terry Jones i gario'r bêl allan o'r amddiffyn yn danfon Y Waun yn ôl. Roedd cyflymdra Marvin Pritchard yn fantais i Llanrug ond bu raid iddo adael y cae wedi 35 munud yn dilyn tacl hwyr arno. Daeth Dan Prys ymlaen i gryfhau ganol cae, gyda Kevin Lloyd yn aredig rhych unig i fyny'r canol. Daeth ambell hanner cyfle i'r ddau dim, ond hanner digon cyfartal oedd hi.

LLANRUG 0 Y WAUN 0

Y Waun ddechreuodd gryfaf, ond roedd Eifion a Terry fel mur canolig, a'r ddau gefnwr Darren a Mathew Phillips yn rheoli'r esgyll. Roedd eu mentro hyderus ymlaen yn troi'r fantais tuag at Lanrug. Roedd angen gôl. Wedi 55 munud daeth y gôl. Cic gornel i Lanrug ar y dde. Dan Prys ar y tro'n taro'r trawst, a gorchwyl hawdd i Dafydd Noel i benio'r bêl i'r rhwyd o dair llath. Cynyddodd y sŵn. Daeth min i'r taclo. Dyma gyfnod ble reolodd Dylan Owen ganol cae, gan sefydlu tempo oedd yn fanteisiol i Lanrug. Gwnaeth Lanrug fwy o ddefnydd o led y cae drwy eu cefnwyr ymosodol tra tueddiad Y Waun oedd mynd lawr y canol. Yno roedd Eifion a Terry yn feistri corn.

Yna wedi 59 munud, ail gôl i Lanrug. Pasio pwrpasol i lawr y chwith, Carl Griffiths yn torri i'r tir agored a phas dda i Kevin Lloyd. Y canolwr yn crymanu y bêl i gornel y rhwyd o 15 llath. Gôl safonol iawn. Roedd cefnogwyr Llanrug yn llawn cân, ond am ryw reswm roedd tueddiad i Lanrug amddiffyn yn ddyfn. Ymlaen daeth Y Waun ac o gic gornel peniodd gapten Y Waun Phil Pearce i'r rhwyd. Nid oedd Aled Owen yn hapus gyda'r marcio llac. Wedi rhyw bum munud sigledig ail afaelodd Llanrug yn eu patrwm o chwarae trwy ganol cae. Roedd angen gôl i gadarnhau yr oruchafiaeth a daeth trydedd i Lanrug wedi 81 munud – gôl yn haeddu ennill cwpan. Rhediad dda gan Carl Griffiths i lawr yr asgell heibio dau amddiffynnwr, a chroesi'n gelfydd. O 10 llath, Kevin Lloyd yn codi a bwrw'r peniad yn ddyheug i gornel y rhwyd. Oedd y cwpan ar y ffordd i Eithin Duon? Wedi 90 munud 3-1 a 4 munud ychwanegol. Yn ôl daeth Y Waun, ac eto blerwch yn amddiffyn Llanrug a gorchwyl hawdd i Jamie Foulkes rwydo o 3 llath. 3-2. Amser cnoi ewinnedd. Llanrug yn cadw'i pennau a chwib olaf Aled Jones yn coroni camp ryfeddol i dim pentref o Arfon, gyda'i chwaraewyr o ardal lleol gyfyng. Eiliad fawr i'r chwaraewyr, rheolwyr, pwyllgor a chefnogwyr. Braf hefyd oedd gweld nifer o gyn chwaraewyr a chapteiniaid yn rhannu yn y fuddugoliaeth. Nid ar chwarae bach mae clwb pentref yn cyrraedd y safon yma. Mae'n adlewyrchu ymlyniad a gweledigaeth.

Ymlaen aeth y chwaraewyr i dderbyn y tlws a siec ennillwyr o £5 000 ac am ei ddwy gôl dyfarnwyd Tlws Chwaraewr y gêm i Kevin Lloyd.

Llongyfarchiadau i Aled Owen a'r tîm, ac rwyn siwr y byddent yn barod i gydnabod cyfraniad y cefnogwyr. Diolch hefyd i'r Waun am gyfrannu i achlysur gofiadwy.

TÎM LLANRUG:

Dylan Roberts, Darren Phillips, Mathew Phillips, Terry Jones, Eifion Williams ©, Dylan Owen, Rhys Roberts, Dafydd Noel Williams, Marvin Pritchard, Kevin Lloyd, Carl Griffiths.

Eilyddion: Dan Prys, Andrew Garlick, Tom Williams, Jonathan Peris Jones, Neil Perkins.

Rheolwr : Aled Owen

Is-reolwyr: Kevin Owen, Mark Jat

Y DAITH I'R FFEINAL

Llanrug 5 Amlwch 1

Llanrug 4 Bodedern 1

Llanrug 2 Bae Kinnel 1

Llanrug 3 Ruthin 1

Llanrug 3 FC Nomads 2

Llanrug 2 Penrhyndeudraeth 0

Chwaraeon



Nifer go dda o flynyddoedd yn ôl (gwell peidio dweud faint!) roedd y pedwar chwaraewr uchod (Eifion Williams, Marvin Pritchard, Carl Griffith a Mathew Phillips), yn aelodau o dim

O Dlws yr “Eco” i Dlws Cymru.



dan 8 oed Llanrug a enillodd Dlws yr “Eco” rhwng timau'r fro. Mae'r pedwar wedi aros yn ffyddlon i Lanrug, ac uchod maent yn dathlu bod yn rhan o'r tim ddaeth a Thlws Cymdeithas Peldroed Cymru i'r pentref.

RHEDEG MYNYDD

Mae'r tymor rhedeg yn ei anterth bellach, a llwyddiannau lu yn dod i redwyr lleol ar y ffyrdd ac ar y mynydd.

Llongyfarchiadau calonnog i Alun Vaughan (Llanberis gynt) ar ddod yn bencampwr marathon Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol. Enillodd ym Marathon Llundain mewn amser ychydig yn arafach na'r llynedd.

Llongyfarchiadau hefyd i ddau o Lanrug ar gael eu hamser marathon gorau erioed ym Manceinion. Roedd dros ddeng mil o gystadleuwyr yn y ddinas, a daeth Rob Samuel yn y deg ar hugain uchaf, gydag amser o 2 awr a 31 munud, a Dyfed Thomas yn y cant a hanner cyntaf, gydag amser o 2 awr a 57 munud.

Mae pedair ras yng nghyfres Rasys Nos Fawrth eisoes wedi eu cynnal, a thua cant o redwyr ar gyfartaledd yn cystadlu ym mhob un, heb son am nifer sylweddol o blant ac ieuencid. Ac fel arfer, mae canran dda o enillwyr yn dod o fro'r “Eco”.

Ar Foel Tryfan, Mathew Roberts, Llanberis oedd yn fuddugol, gydag Arwel Lewis, Bethel yn gyntaf dros 50 oed, Phil Jones, Waunfawr yn gyntaf dros 60 oed a Mabon Llyr, Dinorwig yn gyntaf dan 18 oed. Yn ras y merched, daeth Bronwen Jenkinson,

Waunfawr yn gyntaf dan 18 oed a Maggie Oliver, Dinorwig yn gyntaf dros 60 oed.

Wythnos yn ddiweddarach ar y Foel Lus uwch Dwygyfylchi,, seren y noson oedd Bronwen Jenkinson yn torri record y merched dan 18 oed. Unwaith eto, Phil Jones a Maggie Oliver oedd enillwyr yr adrannau dros 60 oed.

Ffylliaid yn unig (medda nhw!) sy'n mentro cystadlu ar ras Pen Dinas yn Nant Peris, ond daeth 70 ohonynt i herio'r llethr rhyfeddol o serth. Gwnaeth Jenny Heming, Llanberis yn arbennig o dda ar y noson, gan ennill ras y merched, gorffen yn bedwerydd ar ddeg yn y ras a thorri record y merched dros 40 oed. Daeth Stel Farrar, Dinorwig yn gyntaf dros 50 oed, a Maggie Oliver yn gyntaf dros 60 oed. Yr unig ddyn o'r fro i wneud ei farc yn y ras oedd Dafydd Thomas, Llanrug a ddaeth yn gyntaf dros 60 oed.

Yn y bedwaredd ras yn Aber, prin fu llwyddiannau rhedwyr y fro, gyda Bronwen Jenkinson yr unig un i gael llwyddiant, gan ennill y ras i ferched dan 18 oed.

Mae chwech ras yn aros cyn cwblhau'r gyfres.

